

PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL GWYNEDD A MÔN

**ADRODDIAD TROSOLWG ADOLYGIAD LLADDIAD DOMESTIG AR
LOFRUDDIAETH TINA YM MIS GORFFENNAF 2017**

CADEIRYDD: ALWYN RHYS JONES

AWDUR: PHILIP HUGHES, BSC. ANRH, DIP AC

DYDDIAD: 6 Ionawr 2023

CYNNWYS

4	
4	
6	
6	
10	
11	
12	
14	
15	
16	
17	
18	RHANNU GWYBODAETH.....17
19	
22	
30	
34	
50	
54	
55	
60	
60	
61	
62	
62	
63	

CYDNABYDDIAETH

Wrth gynhyrchu adroddiad o'r math hwn rydym yn edrych ar amgylchiadau bywyd a llofruddiaeth Tina - rhywun oedd yn cael ei charu'n fawr, ei gwerthfawrogi'n fawr ac a oedd yn annwyl iawn i aelodau ei theulu, sydd wedi cael eu gadael ar ôl i ymdrin â'u sioc a'u galar. Mae'r panel hefyd yn cydnabod yn ystod proses adolygu'r Adolygiad Lladdiad Domestig (DHR), fod y teulu wedi gorfod ymdrin â cholli Shaun hefyd, a fu farw yn y carchar. Mae'r panel hwn yn cydnabod fod Shaun, er ei fod yn cael ei adnabod fel y cyflawnwr (perpetrator) yng nghydestun yr adroddiad hwn, hefyd yn aelod teulu gwerthfawr a oedd yn cael ei garu'n fawr.

Er ein bod wedi ymdrechu i weld os oes yna wersi i'w dysgu yn dilyn colli Tina dan amgylchiadau trasig, gobeithiwn nad yw'r broses hon wedi ychwanegu at drallod y teulu. Felly, wrth gynhyrchu'r adroddiad hwn mae asiantaethau wedi coladu gwybodaeth sensitif a phersonol dan amodau llym cyfrinachedd; gan gydbwyso'r angen i gynnal preifatrwydd y teulu a'r angen i asiantaethau ddysgu gwersi'n gysylltiedig ag ymarfer, sydd wedi'u hadnabod wrth adolygu'r achos hwn, gan hefyd wrth gwrs gydnabod y bydd yr adroddiad hwn yn mynd yn gyhoeddus yn unol â gofyn y Swyddfa Gartref.

1.0 YR AMGYLCHIADAU A ARWEINIODD AT YR ADOLYGIAD HWN

- 1.0.0 Er dibenion yr adroddiad adolygu hwn adwaenir y dioddefwr fel Tina, a'r cyflawnwr yn Shaun.
- 1.0.2 Mae'r adroddiad hwn o adolygiad lladdiad domestig yn archwilio sut wnaeth asiantaethau ymateb i Tina a'i chefnogi, fel unigolyn a oedd yn byw yng Ngwynedd.
- 1.0.3 Symudodd Tina a Shaun o Iwerddon i Fangor, gogledd Cymru dros 30 mlynedd yn ôl. Ymsefydlon mewn eiddo mewn ystâd dai leol ym Mangor. Mae ganddynt ddau o blant.
- 1.0.4 Ddiwedd mis Gorffennaf 2017, teithiodd Shaun o'i fflat mewn pentref cyfagos i gartref y teulu lle'r oedd Tina yn byw. Wrth fynd i mewn i'r tŷ, cyfarchodd Shaun gariad ei ferch ac yna aeth yn ei flaen i ystafell wely Tina lle trywanodd hi'n anghueol yn ei brest, a arweiniodd at ei marwolaeth.
- 1.0.5 Yn ddiweddarach y bore hwnnw, arestiwyd Shaun, fe'i cadwyd yn y ddalfa ac yna fe'i dwynwyd i dreial am Lofruddiaeth yn Llys y Goron. Fe'i dedfrydwyd i garchar am oes gydag argymhelliad y dylai aros yn y carchar am o leiaf 14 mlynedd am lofruddio Tina cyn bod yn gymwys i gael parôl - dywedodd y Barnwr nad oedd parôl yn awtomatig o bell ffordd.
- 1.0.6 Ym mis Gorffennaf 2018, ychydig mwy na chwe wythnos ar ôl ei ddedfryd, cadarnhaodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder fod Shaun wedi ei ddarganfod yn farw yn ei gell.
- 1.0.7 O fewn yr Adolygiad hwn ystyriodd y Panel unrhyw arwyddion neu adroddiadau blaenorol o gam-drin domestig gan Tina neu gan eraill ar ei rhan. Ceisiodd y Panel ganfod a oedd cefnogaeth ar gael ac a ddefnyddiwyd y gefnogaeth honno yn y gymuned er mwyn canfod y rhwystrau yr oedd y sawl yr oedd yn ceisio cymorth yn y gymuned yn eu hwynebu.
- 1.0.8 Diben y DHR hwn yw adnabod gwersi y gellir eu mabwysiadu gan weithwyr proffesiynol ac asiantaethau i leihau'r perygl y bydd hyn yn digwydd eto.

1.1 GRADDDFA AMSER

- 1.1.1 Llofruddiwyd Tina yn 2017. Rhoddodd yr Heddlu wybod i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (CSP) dri diwrnod yn ddiweddarach ym mis Awst. Penderfynodd cadeirydd y CSP gynnal yr adolygiad chwe diwrnod yn

ddiweddarach ym mis Awst a rhoddwyd gwybod i'r Swyddfa Gartref ar y dyddiad hwnnw. Hysbyswyd y crwner ar 31 Gorffennaf 2017.

- 1.1.2 Cyfarfu'r Panel gyntaf ym mis Hydref 2017 - dau fis ar ôl y digwyddiad. Yn ystod yr amser hwnnw, cysylltwyd gyda'r sefydliadau i roi gwybod iddynt am y ddyletswydd i gyfyngu gwybodaeth. Cynhaliwyd ymarfer sgopio i ganfod pa asiantaethau oedd wedi bod mewn cysylltiad â'r ddiodefwraig neu'r troseddwr honedig ar y pryd. Cytunodd y Panel DHR mai'r cyfnod a fyddai'n cael ei adolygu o ran y ddiodefwraig, Tina, fyddai o 2009 hyd amser ei llofruddiaeth ym mis Gorffennaf 2017. Nododd y Panel mai'r cyfnod a fyddai'n cael ei adolygu o ran y cyflawnwr, Shaun, fyddai o 2002 hyd fis Gorffennaf 2017. Nodwyd y terfynau amser hyn yn seiliedig ar y wybodaeth yn dilyn yr ymarfer sgopio cychwynnol ac roedd yn adlewyrchu'r cofnodion cynharaf a gyflwynwyd trwy'r IMR.
- 1.1.3 Cyfarfu'r Panel DHR 12 gwaith rhwng Hydref 2017 a Mai 2021.
- 1.1.4 Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Swyddfa Gartref ym mis Gorffennaf 2020.
- 1.1.5 Bu oedi nifer o weithiau, yn cynnwys, yn ystod y camau cychwynnol, nid oedd yr awdur a benodwyd yn medru parhau, a chomisiynwyd awdur newydd. Fodd bynnag, fel y nodwyd, rhoddwyd gwybod i bob sefydliad a oedd wedi cael cyswllt â'r teulu yn flaenorol gan eu cyfarwyddo i gynnal adolygiadau rheoli mewnol (IMRs) ond i beidio â'u cyflwyno yn y cam hwnnw.
- 1.1.6 Yn ystod y cyfarfod cyntaf rhoddodd yr Uwch Swyddog Ymchwilio drosolwg i'r Panel o'r amgylchiadau gan rannu'r materion a oedd wedi'u nodi. Penderfynodd y Panel ohirio'r adolygiad tan ar ôl i'r broses llys troseddol gael ei chwblhau. Rhoddwyd gwybod i'r Swyddfa Gartref na fyddwn yn cyflawni'r targed o gwblhau o fewn 6 mis.
- 1.1.7 Cynhaliwyd yr achos llys troseddol ym mis Mai 2018, ac er bod y Panel wedi cyfarfod yn y cyfamser i benderfynu ar y paramedrau a chyswllt â'r teulu ac ati dechreuodd yr adolygiad o ddifri ar yr adeg honno. Yn anffodus, tarfwyd ar y cyswllt â'r teulu yn fuan wedyn pan fu farw'r troseddwr yn y ddalfa. Cynhaliwyd cwest ym mis Mawrth 2022. Roedd casgliad y rheithgor yn datgan: *"It is extremely likely that [Shaun hanging himself] was done deliberately, with intent to take his own life."*
- 1.1.8 Cymerwyd oddeutu 2 flynedd felly i gwblhau'r gwaith craidd, a chydabyddir bod yna gyfnodau o oedi anffodus yn ystod y cyfnod hwnnw, gan fwyaf yn ymwneud ag argaeledd unigolion allweddol a oedd angen cyfrannu i'r gwaith, ac anawsterau wrth dderbyn ymatebion ar amser gan rai cyfranwyr.

1.2 CYFRINACHEDD

- 1.2.1 Mae cynnwys a chasgliadau'r Adolygiad Lladdiad Domestig hwn yn gyfrinachol, ac nid yw'r wybodaeth ond ar gael i'r swyddogion a'r gweithwyr proffesiynol hynny sy'n cyfrannu ato a'u rheolwyr priodol yn eu sefydliadau, yn ôl yr angen. Bydd yn parhau'n gyfrinachol nes caiff y DHR ei gymeradwyo gan Banel Sicrwydd Ansawdd y Swyddfa Gartref ar gyfer ei gyhoeddi. Mae drafftiau o'r adolygiad hwn wedi cael eu marcio'n Gyfyngedig.
- 1.2.2 Rhag datgelu pwy oedd y sawl a fu farw, eu teulu a'u ffrindiau, defnyddir Tina fel ffugenw i gyfeirio at yr ymadawedig o hyn allan a thrwy gydol yr adroddiad hwn. Cyfeirir at y person oedd yn gyfrifol am ei llofruddiaeth fel Shaun. Cyfeirir at y mab a'r ferch fel Louise a David, a merch y partner fel Lee.
- 1.2.3 Ymgynghorwyd â'r teulu ar y dewis o ffugenwau a hwy a ddewisodd yr enwau sy'n ymddangos yn yr adolygiad.
- 1.2.4 Ar adeg y digwyddiad, roedd Tina yn 52 a Shaun yn 53. Roedd y ddau o gefndir Gwyn Gwyddelig. Roeddynt wedi byw eu bywydau fel oedolion yng ngogledd Cymru.

1.3 CYLCH GORCHWYL

Cylch Gorchwyl Adolygiad Lladdiad Domestig	
Mae'r Adolygiad Lladdiad Domestig hwn yn cael ei gwblhau i ystyried ymglymiad asiantaethau gyda Tina, yn dilyn ei llofruddiaeth ar 31.07.2017. Bydd hefyd yn ystyried unrhyw gyswllt â'r troseddwr, Shaun, yn y deng mlynedd olaf.	
Bydd yr Adolygiad yn dilyn y Cylch Gorchwyl a ganlyn:	
1.	Ystyried yr hyn y gellir ei ddysgu o'r llofruddiaeth hon a pheidio â cheisio rhoi bai ar unigolion neu asiantaethau.

2.	Adolygu ymglymiad pob asiantaeth unigol, boed yn statudol neu anstatudol, gyda Tina yn ystod y cyfnod o 2009 hyd at amser ei marwolaeth yn 2017. Ar gyfer Shaun hefyd, yn ystod y cyfnod o 2002 hyd ddyddiad y llofruddiaeth yn 2017. Nodwyd y terfynau amser hyn yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynwyd trwy'r IMR.
3.	Crynhoi ymglymiad asiantaethau cyn Gorffennaf 2017
4.	Bydd yr asiantaethau sy'n cyfrannu fel a ganlyn: ADOLYGU
4.1	Gwasanaeth Prawf Cymru
4.2	Heddlu Gogledd Cymru
4.3	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - yr holl ddarpariaethau iechyd cysylltiedig, yn cynnwys y Meddyg Teulu
4.4	Y Gwasanaeth Tân ac Achub
4.5	Unrhyw ddarparwr trydydd sector perthnasol (fel y'u nodir)
4.6	Gwasanaethau'r Awdurdod Lleol (fel y'u nodir)
5.	Pob asiantaeth sy'n cyfrannu i ddarparu cronoleg o'u hymglymiad gyda'r ddau berson a enwir uchod yn ystod y cyfnod amser perthnasol.
6.	Pob asiantaeth sy'n cyfrannu i edrych ar eu holl gofnodion y tu allan i'r cyfnodau amser a nodwyd i sicrhau na chafodd unrhyw wybodaeth berthnasol ei hepgor.
7	Pob asiantaeth sy'n cyfrannu i ddarparu Adolygiad Rheoli Unigol (IMR): yn adnabod y ffeithiau ynghylch eu hymglymiad gyda'r ddau a enwir uchod, dadansoddi'n feirniadol y gwasanaeth a ddarparwyd ganddynt yn unol â'r cylch gorchwyl penodol gan adnabod unrhyw argymhellion ar gyfer ymarfer neu bolisi mewn perthynas â'u hasiantaeth.

7.1	Ystyried gweithgarwch mewn ardal ddaearyddol arall (os yw'n berthnasol) ac adolygu effaith hyn yn yr achos penodol hwn.
8.	Er mwyn dadansoddi'n feirniadol y digwyddiad ac ymateb yr asiantaethau i'r teulu, dylai'r adolygiad hwn ystyried y chwe phwynt a ganlyn yn benodol:
8.1	Dadansoddi'r cyfathrebu, y gweithdrefnau a'r trafodaethau a ddigwyddodd rhwng asiantaethau, yn cynnwys ystyried dryswch posib gyda'r derminoleg.
8.2	Dadansoddi'r cydweithrediad rhwng gwahanol asiantaethau a oedd yn gysylltiedig â'r dioddefwr, y sawl yr honnir iddo gyflawni'r drosedd, a'r teulu estynedig.
8.3	Dadansoddi'r cyfle i asiantaethau adnabod ac asesu'r risg o gam-drin domestig.
8.4	Dadansoddi ymatebion asiantaethau i unrhyw achos pan ganfuwyd materion cam-drin domestig
8.5	Dadansoddi mynediad sefydliadau at asiantaethau cam-drin domestig arbenigol
8.6	Dadansoddi'r hyfforddiant sydd ar gael i'r asiantaethau sydd ynghlwm â materion cam-drin domestig.
8.7	Ystyried a ellir gwneud mwy yn yr ardal leol i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael i ddioddefwyr trais domestig
8.7	Felly:
8.7.1	Sefydlu pa wersi sydd i'w dysgu o'r lladdiad domestig o ran y ffordd mae pobl broffesiynol a sefydliadau lleol yn gweithio yn unigol a gyda'i gilydd i ddiogelu dioddefwyr
8.7.2	Adnabod yn glir beth yw'r gwersi hynny o fewn asiantaethau a rhwng asiantaethau, sut y gweithredir arnynt ac o fewn pa amserlen, a'r newidiadau a ddisgwylir o ganlyniad i hyn;
8.7.3	Gweithredu'r gwersi hyn yn ymatebion y gwasanaethau, yn cynnwys newidiadau i bolisiâu a gweithdrefnau fel sy'n briodol; ac

8.7.4	Atal lladdiadau trais domestig a cham-drin a gwella ymatebion y gwasanaethau i bob dioddefwr trais domestig a chamdriniaeth a'u plant drwy weithio'n well o fewn asiantaethau ac yn rhyngasiantaethol.
9.	Cynnwys teulu'r dioddefwr yn yr adolygiad mewn modd sensitif, os yw'n briodol gwneud hynny yng nghyd-destun camau troseddol parhaus. Hefyd, edrych ar y posibilrwydd o gysylltu ag unrhyw aelod o deulu'r sawl a honnir iddo gyflawni'r drosedd gan y gallent ychwanegu gwerth at y broses hon.
10.	Cydlynu ag unrhyw broses adolygu arall sy'n gysylltiedig â phlant y dioddefwr a/neu'r sawl yr honnir iddo gyflawni'r drosedd.
11.	Comisiynu person annibynnol sydd â phrofiad addas i gadeirio'r Panel Adolygu Lladdiad Domestig, (ariannir ar y cyd gan bartneriaid cyfrifol fel bo'r angen), cydlynu'r broses, sicrhau ansawdd y dull a herio asiantaethau ble bo angen; ac yn dilyn hynny, cynhyrchu'r Adroddiad Trosolwg gan ddadansoddi'n feirniadol ymglymiad yr asiantaethau yng nghyd-destun y cylch gorchwyl sydd wedi'i sefydlu.
12.	Sefydlu cynllun gweithredu clir i'w weithredu gan asiantaethau unigol o ganlyniad i unrhyw argymhellion.
13.	Sefydlu cynllun gweithredu amlasiantaethol o ganlyniad i unrhyw faterion sy'n codi o'r Adroddiad Trosolwg.
14.	Darparu crynodeb gweithredol.

15.	Ymgymryd â'r broses mor gyflym â phosib er mwyn cydymffurfio ag unrhyw ofynion datgelu, ac wedi cwblhau'r broses, cyflwyno'r adroddiad llawn i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.
16.	Bydd y sawl fydd yn cysylltu â theulu'r dioddefwr yn cynnwys - Y Cadeirydd a'r Awdur, trwy'r Heddlu, ynghyd â phersonél cymwys arall sy'n siarad Cymraeg, os oes angen. Rhaid diweddarau'r teulu ar y cynnydd yn rheolaidd
17.	Awdurdod Lleol Gwynedd yw'r asiantaeth fydd yn gyfrifol am wneud pob datganiad i'r wasg ac ateb ymholiadau gan y wasg.

1.4 METHODOLEG

- 1.4.1 Mae'n bwysig dweud nad yw'r DHR yn ymchwiliad i sut y bu'r dioddefwr farw nac i bwy sy'n gyfrifol; materion i'r Crwner a'r llysoedd troseddol eu penderfynu yw'r rhain. Nid yw Adolygiadau DHR yn rhan benodol o unrhyw ymholiad neu broses ddisgyblaethol. Pan ddaw gwybodaeth i'r golwg yn ystod DHR sy'n awgrymu y dylid cymryd camau disgyblu, bydd yr asiantaeth dan sylw'n dilyn ei gweithdrefnau disgyblu mewnol ei hun ar wahân i'r broses DHR.
- 1.4.2 Cafodd Tina ei llofruddio ar ddiwedd mis Gorffennaf 2017. Rhoddodd Heddlu Gogledd Cymru wybod i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (CSP) am y llofruddiaeth dri diwrnod yn ddiweddarach, ym mis Awst. Yn dilyn hynny, cynhaliwyd trafodaethau (dros e-bost ac ar y ffôn) rhwng Rheolwr Diogelwch Cymunedol Awdurdod Lleol Gwynedd, yr heddlu a chadeirydd y bartneriaeth diogelwch cymunedol. Penderfynwyd cynnal DHR ym mis Awst 2017 a rhoddwyd gwybod i'r Swyddfa Gartref ar y dyddiad hwnnw.
- 1.4.3 Yn uniongyrchol yn dilyn y digwyddiad, rhoddwyd camau ar waith i sicrhau bod pob gwasanaeth lleol (a oedd wedi bod yn gweithio gyda'r teulu) yn cael gwybod am y bwriad gan ddweud wrthynt i ddiogelu eu gwybodaeth a pharatoi ar gyfer y DHR.
- 1.4.4 Penodwyd cadeirydd annibynnol ac awdur yr adroddiad ym mis Medi. Rhoddwyd gwybod i'r teulu gan y Swyddog Cyswllt Teulu (FLO) am y bwriad i gynnal DHR, bu i eiriolwr y teulu o AAFDA (Advocacy After Fatal Domestic Abuse) eu cysylltu'n uniongyrchol hefyd gan drafod gyda chadeirydd y DHR, a rhoddodd y FLO lythyr swyddogol a thaflen gan y Panel i'r teulu ym mis Hydref 2017.

- 1.4.5 Cynhaliwyd cyfarfod adolygu cyntaf y Panel ar ddechrau mis Hydref. Yn dilyn trafodaeth rhwng aelodau'r Panel a'r Uwch Swyddog Ymchwilio (SIO) a gyflwynodd yr achos, cytunwyd y byddai'r adolygiad yn mynd yn ei flaen gyda sgôp cyfyngedig nes i'r broses gyfiawnder gael ei chwblhau.
- 1.4.6 Defnyddiwyd datganiadau i'r Heddlu/Adolygiadau Rheoli Annibynnol (IMR) ac amrywiol ddogfennau polisi a gweithdrefnau i fwrw ymlaen â'r adolygiad. Cynhaliwyd cyfweiliadau ag aelodau teulu, Meddyg Teulu (GP) dau Reolwr Diogelu, Rheolwr Gwasanaeth Iechyd Meddwl a Chyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol o'r Bwrdd Iechyd

1.5 YMWNEUD Y TEULU, FFRINDIAU, CYDWEITHWYR, CYMDOGION A'R GYMUNED EHANGACH YN YR ADOLYGIAD

- 1.5.1 Roedd gan Tina a Shaun fab a merch sydd nawr yn oedolion a theulu estynedig yn byw yn Iwerddon. Nodwyd eu merch a'u mab a adwaenir fel Louise a David er dibenion yr adolygiad hwn fel yr enwau cyswllt ar gyfer yr adolygiad. Yr FLO wnaeth gysylltu â Louise a David yn y lle cyntaf, mewn cyswllt â'r Panel (trwy swyddog cyswllt diogelwch cymunedol y panel) Rhannodd yr FLO lythyr cydymdeimlo gyda hwy ac egluro pam fod gofyn i'r panel gyflawni'r adolygiad hwn gan rannu taflen wybodaeth gyda hwy a baratowyd gan AAFDA ym mis Hydref 2017. Fodd bynnag, roedd y panel yn ymwybodol erbyn yr amser hynny fod eiriolwr o AAFDA eisoes wedi cysylltu â Louise a Chadeirydd y Panel.
- 1.5.2 Daeth yr eiriolwr AAFDA yn gyfrannwr gwerthfawr wrth gysylltu â'r teulu ac roedd yn bresennol ym mhob un o'r cyfarfodydd rhwng y Cadeirydd/yr awdur a'r teulu, cynhaliwyd cyfanswm o dri o'r rhain, roedd yr eiriolwr hefyd yn rhoi gwybod am ddatblygiadau penodol rhwng y teulu a'r Panel a chyfrannodd yn adeiladol at ddatblygiad yr adroddiad. Rhannwyd drafft terfynol o'r adroddiad gyda'r teulu trwy'r eiriolwr cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Swyddfa Gartref.
- 1.5.3 Roedd mab Tina - David, yn byw ac yn gweithio yng Ngogledd Orllewin Lloegr pan ddechreuwyd ar y DHR ac ar y dechrau nid oedd yn medru cyfarfod â'r Cadeirydd a'r Awdur. Yn 2019, symudodd David yn ôl i'r ardal lle'i magwyd ac mae wedi medru cyfarfod â'r Cadeirydd a'r Awdur ac ymgysylltu'n llawn â'r broses.
- 1.5.4 Rhannwyd y cylch gorchwyl gyda'r teulu trwy'r eiriolwr ar ran y Panel. Roedd y Panel yn medru darparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd gyda Louise a David gan sicrhau bod llais Tina yn ganolog wrth ddeall y digwyddiadau. Wrth ddychwelyd i'r ardal, daeth David yn fwy o ran o'r broses. Cafodd Louise a David gyfle yn ystod cam y drafft terfynol i sicrhau bod yr adolygiad yn ffeithiol gywir ac yn adlewyrchiad cywir o fywydau eu rhieni.

- 1.5.5 Sicrhaodd y Panel fod y teulu yn medru sgwrsio yn eu dewis iaith. Yn unol â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg, mae'n rhaid i'r holl waith a gyflawnir fod yn y ddwy iaith. Yn yr achos hwn, roedd modd i'r Panel ddiwallu anghenion y teulu o fewn y paramedrau hynny.
- 1.5.6 Yn unol â gofynion y DHR, ceisiodd y Panel ganfod unrhyw gysylltiadau a fyddai'n medru taflu goleuni ar y siwrne o gam-drin yng nghyd-destun yr achos hwn. Daeth y wybodaeth gychwynnol o ymchwiliad yr Heddlu, oedd yn cynnwys cyfweiliadau trylwyr gyda chydweithwyr a ffrindiau'r teulu. Rhannwyd y datganiadau hyn gyda'r awdur a'r cadeirydd ynghyd â chyfraniad y teulu, a ddarparodd 'darlun' sicrach o'r perthnasau. Roedd yn amlwg fod Tina a Shaun wedi cynnal bywyd preifat iawn, gan roi ychydig iawn, os o gwbl, o arwyddion i'w cydweithwyr neu ffrindiau fod cam-drin domestig yn ffactor yn eu bywydau. Roedd y plant yn cytuno â'r safiad hwn.
- 1.5.7 Defnyddiodd y Panel yr holl wybodaeth a gafwyd gan y ffynonellau hyn gan ddilyn i fyny os oedd yna arwyddion fod angen mwy o wybodaeth. Yn yr achos hwn, edrychwyd yn ddyfnach ar weithle'r ddau, ac adlewyrchir yr ymholiadau hynny yn yr adroddiad.
- 1.5.8 Roedd y Panel yn bwriadu cyfweld â Shaun, roedd y trefniadau ar waith gyda'r carchar i drefnu cyfarfod, fodd bynnag, gwnaeth Shaun ddiwedd arno ef ei hun yn fuan wedi'i gyfnod yn y carchar ddechrau.

1.6 CYFRANWYR I'R ADOLYGIAD

1.6.1 Adolygiadau Rheoli Annibynnol (IMR)

1.6.2 Derbyniwyd IMR gan yr asiantaethau a ganlyn oedd yn gweithio gyda Tina a/neu Shaun. Mae'r IMR yn rhoi manylion cofnodion y cyswllt a gafwyd gydag asiantaethau unigol.

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
- Heddlu Gogledd Cymru (NWP)
- Gorwel (Darparwr arbenigol Cam-drin Domestig o'r trydydd sector)
- Heddlu Trafnidiaeth Prydain (BTP)
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (NWF&RS)
- Gofal Cymdeithasol Oedolion, Cyngor Gwynedd (ASC)
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST)
- Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS)

- 1.6.3 Unwyd y data o'r IMR yn un gronoleg gynhwysfawr oedd yn berthnasol i Tina ac i Shaun. Paratowyd cwestiynau ategol i'r asiantaethau gan yr awdur a chynhaliwyd cyfarfodydd pellach gydag awduron yr Adolygiadau Rheoli Annibynnol.
- 1.6.4 Roedd datganiadau i'r Heddlu o'r ymchwiliad troseddol hefyd ar gael i'r Cadeirydd a'r awdur. Roedd y rhain yn cynnwys datganiadau i'r heddlu gan y teulu, ffrindiau'r teulu a chydweithwyr.
- 1.6.5 Datgelodd y sgopio cychwynnol nad oedd yr asiantaethau a ganlyn wedi cael unrhyw gyswllt â'r teulu yn ystod y cyfnod a gynhwyswyd yn yr Adolygiad:
- Y Gwasanaeth Prawf
 - Gweithiwr Cymdeithasol Plant, Cyngor Gwynedd
 - Parabl (Mae Partneriaeth Therapiau Siarad Parabl yn ceisio hyrwyddo adfer a grymuso unigolion sydd ag anghenion iechyd meddwl mân i gymedrol.)
 - Cymorth i Ferched Ardal Bangor
 - Hwb Dioddefwyr Gogledd Cymru
 - Relate
- 1.6.6 Ffynonellau Gwybodaeth y mae'r Adolygiad hwn wedi Dibynnu arnynt
- 1.6.7 Mae'r arolwg hwn wedi dibynnu ar y wybodaeth a ganlyn fel tystiolaeth ar gyfer cynhyrchu'r adroddiad hwn:
- Yr Adolygiadau Rheoli Mewnol a ddarparwyd i'r Panel DHR gan yr asiantaethau a ddisgrifir uchod
 - Y Gronoleg Ddilynol yn deillio o'r Adolygiadau Rheoli Annibynnol
 - Cyfweliad gyda Louise, aelod teulu a'r Eiriolwr a chyfarfod gyda Louise, David a'r Eiriolwr
 - Cyfarfod a chyfweliad â Meddygon Teulu o Feddygfa'r teulu
 - Cyfarfod a Chyfweliad â Rheolwr CMHT 1
 - Datganiadau a dogfennau a rhyddhawyd gan Heddlu Gogledd Cymru
 - Dogfennaeth gan Wasanaeth Erlyn y Goron
- 1.6.8 Roedd pob awdur IMR yn medru cadarnhau eu hannibyniaeth ar y sail nad oeddynt wedi cael unrhyw gyswllt uniongyrchol â'r teulu cyn yr adolygiad. Nid oedd ganddynt ychwaith gyfrifoldeb fel rheolwr llinell uniongyrchol i unrhyw un o'r staff a enwyd yn yr IMRs.

1.7 AELODAU'R PANEL ADOLYGU

1.7.1 Cyfarfu'r panel ar 12 achlysur. Roedd pob un o'r aelodau a restrir isod yn aelodau annibynnol, h.y. nid oeddynt wedi cael unrhyw gyswllt uniongyrchol nac wedi bod yn rheolwr llinell i unrhyw un a gafodd gyswllt gyda'r teulu cyn y digwyddiad.

Enw	Rôl ar y Panel	Manylion Cyflogaeth
Alwyn Jones (AJ)	Cadeirydd y Panel DHR	Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Cyngor Sir Ynys Môn
Phil Hughes (PH)	Annibynnol Adolygwr/awdur	Phil Hughes Consultant Ltd (Swyddog Ymchwilio Annibynnol)
Catherine Roberts (CR)	Swyddog Cefnogol a chyswllt ffurfiol rhwng y Panel a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.	Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol ar gyfer Cyngorau Gwynedd a Môn
Delyth Crisp (DC)	Cyfreithiwr a Chynghorydd Cyfreithiol i'r Panel	Cyfreithiwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Frances Millar (FM)	Yn cynrychioli Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Uwch Reolwr Diogelu - Gorllewin (BIPBC)
Michael Taggart (MT) (George Howat oedd yn mynychu'n wreiddiol)	Yn cynrychioli Heddlu Gogledd Cymru	(MT) – Swyddog Strategol Cam-drin Domestig, Heddlu Gogledd Cymru
Lowri Owen (LO)	Yn cynrychioli'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol	Cydlynnydd Trefniadau Gwarchod y Cyhoedd Amlasiantaethol Gogledd Cymru (MAPPA)

Gwyneth Williams (GW)	Yn cynrychioli Gorwel - darparwyr arbenigol trais domestig yn y trydydd sector (yn cynnwys Ymgynghorwyr Annibynnol Trais yn y Cartref - IDVA)	Rheolwr Gwasanaeth Grŵp Cynefin (Gorwel)
Gwyn Jones (GJ)	Yn cynrychioli Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru Service	Rheolwr Diogelwch Cymunedol
Mannon Trappe (MT)	Yn cynrychioli Diogelu Oedolion Gwynedd - Gofal Cymdeithasol	Uwch Reolwr Diogelu Oedolion, Sicrwydd Ansawdd ac Iechyd Meddwl

1.8 CADEIRYDD YR ADOLYGIAD LLADDIAD DOMESTIG AC AWDUR YR ADRODDIAD TROSOLWG

AWDUR ANNIBYNNOL

- 1.8.1 Awdur annibynnol yr adroddiad hwn yw Philip Hughes, BSc Anrh, Iechyd yr Amgylchedd, Dip Acoustics. Mae gan Phil Hughes fwy na 25 mlynedd o brofiad o weithio yn y Sector Awdurdod Lleol ac mae'n ymchwilydd hunan-gyflogedig profiadol, wedi gweithio i amrywiaeth o gleientiaid sector cyhoeddus yng Nghymru ac yng Ngogledd Orllewin Lloegr. Daw ei brofiad o ymchwilio o'i gymhwyster a'i rôl fel ymarferydd iechyd yr amgylchedd, sydd wedi datblygu'n yrfa fel Swyddog Ymchwilio hunangyflogedig llawn amser. Mae Phil Hughes hefyd wedi cofrestru'n Swyddog Ymchwilio Annibynnol gyda chonsortium Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru.
- 1.8.2 Yn y deng mlynedd diwethaf, mae'r awdur wedi'i gomisiynu i gynnal ystod o adolygiadau arbenigol, llawer ohonynt yn cynnwys cyfrannu at a mynychu prosesau diogelu amlasiantaethol o ran amddiffyn plant ac o ran oedolion bregus.
- 1.8.3 Mae'r awdur yn arfer cynnal ymchwiliadau i brosesau disgyblu, ac ymchwiliadau statudol i gamymddwyn proffesiynol. Mae llawer o'r gwaith hwn yn gofyn am wybodaeth drylwyr o'r broses a'r weithdrefn ddiogelu yn y sectorau hyn.

- 1.8.4 Wrth baratoi ar gyfer rôl yr Awdur, cyflawnodd Phil Hughes hyfforddiant ar-lein y llywodraeth ar adolygiadau lladdiad domestig (DHR) yn ogystal ag adolygu cyfres o gyhoeddiadau am Drais a Cham-drin Domestig.
- 1.8.5 Ar hyn o bryd, nid yw Phil Hughes yn gyflogedig gan unrhyw un o'r asiantaethau statudol sy'n rhan o'r adolygiad (fel y nodir yn adran 9 y Ddeddf) ac nid yw wedi cael cyswllt o'r blaen gyda'r teulu nac ychwaith gydag unrhyw un o'r partïon eraill oedd yn rhan o'r digwyddiadau sy'n cael eu hadolygu.

CADEIRYDD ANNIBYNNOL

- 1.8.6 Cadeiriwyd y Panel DHR gan Alwyn Jones, oedd ar ddechrau'r broses yn Bennaeth Gwasanaethau Oedolion, Cyngor Sir Ynys Môn ac sydd bellach yn Brif Swyddog, Gofal Cymdeithasol yng Nghyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam. Mae wedi gweithio mewn gwasanaethau Iechyd a Gofal am y 26 mlynedd diwethaf ac yn benodol yng ngwasanaethau Oedolion ers dros 15 mlynedd. Yng Ngwasanaethau Oedolion mae wedi bod yn rhan o Reolaeth Strategol a Gweithredol Gwasanaethau Diogelu ac ef yw Cynrychiolydd y Sir ar Fwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol Gogledd Cymru.
- 1.8.7 Mae gan Alwyn brofiad o gadeirio nifer o achosion Diogelu, yn cynnwys trais domestig yn ei yrfa mewn gofal cymdeithasol ac mae wedi bod yn atebol am waith timau diogelu yn Wrecsam, Sir y Fflint ac Ynys Môn ers dros 13 mlynedd.
- 1.8.8 Mae gan Alwyn wybodaeth sylweddol am Wasanaethau Cam-drin a Thrais Domestig a'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan sefydliadau i gefnogi dioddefwyr cam-drin a thrais domestig.
- 1.8.9 Mae Alwyn wedi gweithio yn y maes Gofal Cymdeithasol Oedolion ers dros 15 mlynedd, fel rhan o'i gyfrifoldebau Diogelu mae wedi goruchwyllo a darparu arweiniad mewn achosion annibynnol lle mae cam-drin a thrais domestig wedi bod yn brif nodwedd amlwg. Mae Alwyn wedi defnyddio gwasanaeth dysgu ar-lein Gov.uk mewn perthynas â DHR.
- 1.8.10 Nid yw'r Cadeirydd Annibynnol wedi ymwneud ag unigolion yr adroddiad yn flaenorol.

1.9 ADOLYGIADAU SY'N CYDREDEG

- 1.9.1 Nid oedd unrhyw adolygiadau yn cyd-redeg â'r DHR hwn.

- 1.9.2 Cysylltwyd yn gynnar yn y broses gyda'r crwner lleol a wnaeth gadarnhau fod cwest wedi'i agor a'i ohirio. Yn dilyn yr achosion troseddol ym mis Mai 2018 ac ar ôl y gollfarn, cadarnhaodd y crwner na fyddai angen cynnal cwest.

1.10 CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

- 1.10.1 Drwy gydol y broses adolygu, mae'r Panel Adolygu wedi ystyried materion cydraddoldeb ac yn benodol y naw nodwedd warchoddedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Y rhain yw:

- Oed
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas neu bartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhywedd
- Cyfeiriadedd rhywiol

- 1.10.2 O ran y Nodweddion Gwarchoddedig, nid yw'r adolygiad wedi derbyn unrhyw wybodaeth i awgrymu fod gan Tina, cyn cyfarfod Shaun, unrhyw anghenion penodol yn ymwneud ag erledigaeth, gwahaniaethu neu anabledd. Nid oedd Tina yn derbyn gwasanaethau gan unrhyw asiantaeth, y tu hwnt i'r hyn sy'n arferol, megis y gwasanaeth iechyd. Nid yw'n bosibl gofyn i Shaun na Tina am eu magwraeth yn Iwerddon. Gallai hyn fod wedi bod yn fuddiol i ddeall mwy am eu magwraeth yn Iwerddon, o ran crefydd a hil, i ddeall eu treftadaeth Wyddelig a'u gwerthoedd diwylliannol o ran perthnasau a'u penderfyniad i symud i Gymru.

- 1.10.3 O ran y Nodweddion Gwarchoddedig, roedd Shaun wedi ceisio help yn gysylltiedig â'i les meddyliol, sydd wedi'i gofnodi'n helaeth. Nid oedd materion Iechyd Meddwl Shaun yn cyfrif fel anabledd yn ôl diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010. Roedd cyfnodau Shaun o salwch iechyd meddwl yn rhai byr ac nid oedd unrhyw effaith hirdymor ar ei allu i gyflawni tasgau dyddiol. Fodd bynnag, er nad oedd Shaun wedi derbyn diagnosis o gyflwr iechyd meddwl penodol, cafodd ei gyfeirio beth bynnag am Asesiad Iechyd Meddwl gan y Meddyg Teulu (GP). Roedd hyn yn unol â'r ymarfer a amlinellir yng nghanllawiau NICE (Psychosis and schizophrenia in adults: prevention and management 2014)

- 1.10.4 Nid yw cam-ddefnydd Shaun o alcohol yn bodloni'r diffiniad o anabledd. Ystyrir bod Deddf Anabledd 2010, yn gaeth i, yn ddibynnol ar, alcohol, nicotin, neu unrhyw sylwedd arall (oni bai o ganlyniad i'r ffaith bod y sylwedd ar

bresgripsiwn meddygol) yn eithriedig o'r diffiniad o anabledd (adran A12 Canllawiau Deddf Cydraddoldeb 2010 - Swyddfa dros Faterion Pobl Anabl)

1.10.5 Mae'r Panel yn cydnabod fod rhyw bob amser yn ystyriaeth mewn DHR oherwydd bod merched yn ddiodefwyr lladdiad domestig yn amlach na dynion. Lladdwyd hanner y diodefwyr a oedd yn ferched oed 16 a hŷn gan eu partner neu gyn-bartner (82 lladdiad) yn y flwyddyn a oedd yn diweddu mis Mawrth 2017. Mewn cyferbyniad, dim ond 3% o ddiodefwyr oedd yn ddynion 16 mlwydd oed a hŷn a laddwyd gan eu partner neu cyn-bartner (13 trosedd) yng Nghymru a Lloegr: yn y flwyddyn a oedd yn diweddu mis Mawrth 2017.

1.10.6 Cydnabyddir hefyd y bydd yna dan adrodd ar gam-drin domestig gan ferched yn erbyn dynion gan fod dynion yn gyffredinol yn ei chael yn anos datgelu cam-drin o'r fath oherwydd gwarth, cywilydd, ac amharodrwydd i ystyried eu hunain fel diodefwr cam-driniaeth gan ferched, felly mae mwy o wybodaeth ystadegol ar gael sy'n ymwneud â merched fel diodefwyr gan ddynion.¹

1.11 RHANNU'R ADRODDIAD

1.11.1 Cyn cyflwyno'r fersiwn derfynol i'r Swyddfa Gartref, rhannwyd yr adroddiad Trosolwg gyda'r rhai a ganlyn:

- Y Teulu - trwy'r eiriolwr
- Partneriaid statudol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn
- Y sefydliadau a gynrychiolwyd ar y Panel Adolygu

1.11.2 Fe wnaeth y teulu ymgysylltu â'r broses a rhannwyd holl sylwadau'r teulu gyda'r panel trwy'r eiriolwr a rhoddwyd ystyriaeth lawn iddynt wrth lunio'r adroddiad.

1.11.3 Yn dilyn cymeradwyaeth y Swyddfa Gartref, rhennir yr adroddiad hefyd gyda

- Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
- Y teulu, ar y cyd â llythyr ymateb terfynol y Swyddfa Gartref
- Bydd adroddiad yn cael ei osod ar dudalennau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar wefan yr Awdurdod Lleol
- Yn ogystal, bydd yr adroddiad yn cael ei rannu ag arweinwyr prosiect cynllun Llywodraeth Cymru ar ddatblygu proses Adolygu Unedig Unigol

2.0 GWYBODAETH GEFNDIROL (Y FFEITHIAU)

- 2.0.1 Symudodd Tina a Shaun o Iwerddon i Ogledd Cymru dros 30 mlynedd yn ôl. Ymsefydlon mewn eiddo mewn ystâd dai leol ym Mangor. Mae ganddynt ddau o blant - David sydd yn ei 30au cynnar a Louise sydd yng nghanol ei 20au. Tyfodd y ddau blentyn yng nghartref y teulu gyda Tina a Shaun. Roedd David wedi gadael cartref y teulu i weithio a byw yng Ngogledd Orllewin Lloegr a dychwelodd yn 2019 i'r ardal lle'i magwyd.
- 2.0.2 Roedd Louise mewn perthynas gyda Lee ar adeg y digwyddiadau. Mae Louise wastad wedi aros yn yr ardal lle'i magwyd.
-
- ¹ Research Summary on male victims of domestic abuse Dr Liz Bates (Principal Lecturer in Psychology and Psychological Therapies at the University of Cumbria) Taylor et al 2021
- 2.0.3 Roedd Shaun yn gweithio i gwmni telegyfathrebu mawr ac yn gweithio'n lleol fel hyfforddwr gwasanaethau cwsmer. Roedd Tina yn gweithio yn un o gartrefi preswyl lleol y Cyngor.
- 2.0.4 O'r tu allan roedd y teulu yn ymddangos yn deulu cariadus gyda rhai pobl yn dweud pa mor eiddigeddus oeddynt o deulu mor gefnogol a hapus. Roedd Shaun yn uchel ei barch yng nghymuned ei ystâd dai leol lle'r oedd wedi bod yn gweithio gyda grwpiau cymunedol.
- 2.0.5 Disgrifiodd Louise ei thad fel alcoholig oedd yn medru byw fel rhan o gymdeithas (*functioning alcoholic*), gan nodi y byddai'n yfed yn ystod gyda'r nosau ac ar benwythnosau, ac oddeutu 3 neu 4 gwaith y flwyddyn byddai'n yfed i'r fath raddau na fyddai'n medru mynd i'w waith ac felly'n ffonio i ddweud ei fod yn sâl.
- 2.0.6 Mae cofnodion meddygol yn nodi fod Shaun wedi cyfeirio ei hun i'r CMHT ym mis Hydref 2002. Nid yw'n glir faint o amser fu cyn i Shaun ddechrau yfed eto.
- 2.0.7 Nid oes bellach unrhyw gofnodion perthnasol o gyswllt gydag asiantaethau gan Tina a Shaun nes mis Mawrth 2016.
- 2.0.8 Ym mis Mawrth 2016, dychwelodd Louise adref i weld Tina a Shaun yn dadlau. Datgelodd Tina fod Shaun wedi ymosod arni ddeuddydd ynghynt. Honnodd

Shaun hefyd fod Tina wedi ymosod arno ef. Rhoddodd Louise wybod i'r heddlu ac arestiwyd Shaun ac aethpwyd ag ef i'r ddalffa leol lle dwynwyd cyhuddiad a.39 Ymosod Cyffredin yn ei erbyn.

- 2.0.9 Y diwrnod canlynol ym mis Mawrth 2016, cafodd Shaun ei ryddhau o'r Ddalffa i ymddangos o flaen Llys yr Ynadon ar ddiwedd mis Ebrill 2016 gydag amodau mechniaeth:
- I beidio â chysylltu â Tina na Louise yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol am unrhyw reswm
 - I beidio â mynd i gartref y teulu, Bangor
 - I beidio â mynd i weithle Tina am unrhyw reswm
- 2.0.10 Yn ddiweddarach y noson honno ffoniodd Shaun ei fab, David, a dweud wrtho ei fod am ladd ei hun drwy neidio o flaen trê. Rhoddodd Heddlu Gogledd Cymru wybod i Heddlu Trafnidiaeth Prydain a ddaeth o hyd i Shaun ar y trac rheilffordd mewn twnnel. Ymdriniodd BTP â'r mater o dresbasu drwy ddatrysiad cymunedol, ac oherwydd sut yr oedd Shaun yn ymddwyn, penderfynwyd ei ddal dan Adran 136 y Ddeddf Iechyd Meddwl ac aethpwyd ag ef i'r ysbyty lle cafodd ei asesu a'i ryddhau y diwrnod canlynol.
- 2.0.11 Pan oedd ar y trac rheilffordd ffoniodd Shaun Louise a Tina yn gofyn iddynt dynnu eu datganiadau yn ôl. Cysylltodd Louise a Tina â'r Heddlu a thynnu eu datganiadau yn ôl ar gais Shaun.
- 2.0.12 Wedi peth ystyriaeth, gollyngodd Gwasanaeth Erllyn y Goron y cyhuddiadau yn erbyn Shaun, ac nid oedd gofyn iddo fynychu'r llys. Roedd hyn ar y sail fod Tina a Louise wedi tynnu eu datganiadau yn ôl a barn yr Heddlu oedd ei bod yn amhriodol gwneud i'r dioddefwr a'i merch fynychu yn groes i'w hewyllys.
- 2.0.13 Felly penderfynwyd peidio â pharhau â'r achos ar sail y dystiolaeth ym mis Ebrill 2016.
- 2.0.14 Wrth barhau i beidio â byw yng nghartref y teulu, ac mewn llety Gwely a Brecwast, rhoddodd Shaun y gorau i yfed alcohol a dechreuodd fynychu Alcoholics Anonymous yn rheolaidd. Credodd Louise ei fod wedi peidio ag yfed alcohol am oddeutu 18 mis.
- 2.0.15 Mae cofnodion Gorwel yn nodi sylwadau Tina ym mis 10 Mai 2016 yn dweud fod Shaun wedi dychwelyd adref, a bod Tina eisiau rhoi cyfle arall i Shaun.
- 2.0.16 Blwyddyn yn ddiweddarach ym mis Mai 2017 dechreuodd Shaun fynychu cyfres o apwyntiadau meddygol gyda'r feddygfa leol gan nodi 'difficulty

sleeping feeling irritable/ paranoid at times intrusive thoughts wife having affair'. Dilynwyd hyn gan nifer o asesiadau pellach, gyda'r MT yn rhoi presgripsiwn meddyginiaeth i Shaun a rhoi amser i ffwrdd o'r gwaith iddo, a arweiniodd at asesiad terfynol tair wythnos cyn y llofruddiaeth yn hwyr ym mis Gorffennaf 2017. Cofnodwyd fod Shaun yn arddangos gwellhad sylweddol a'i fod wedi penderfynu symud o gartref y teulu.

- 2.0.17 Dau ddiwrnod cyn y llofruddiaeth, trefnodd Shaun a Tina i fynychu digwyddiad rasio ceffylau gyda'i gilydd. Pan oeddynt yn y rasys, gwelodd Shaun gyn-gydweithiwr i Tina yr oedd yn credu oedd yn cael affêr gyda Tina. Mae tystiolaeth TCC yn dangos Shaun yn gweiddi ac yn gwneud ystumiau at Tina wrth fynedfa'r rasys. Roedd Shaun wedi llunio'r farn fod Tina rhywsut wedi trefnu i'w chyn-gydweithiwr fod yn y rasys. Ar ôl y rasys, dychwelodd Shaun a Tina i gartref y teulu.
- 2.0.18 Y diwrnod a ganlyn gadawodd Shaun y tŷ yn oriau mân y bore i brynu 8 can o Guinness a photel o frandi.
- 2.0.19 Y diwrnod canlynol, ar fore'r llofruddiaeth deffrodd Lee (cariad Louise) am oddeutu 07.30 ac aeth i lawr y grisiau i'r gegin i wneud brecwast i Louise am ei bod yn gweithio'r bore hwnnw. Aeth Louise i'w gwaith am oddeutu 08.20 ac aeth Lee yn ôl i'r gwely. Rhyw 10 munud yn ddiweddarach clywodd Lee y drws ffrynt yn agor a sŵn traed yn dod i fyny'r grisiau. Yr adeg honno, gwelodd ddrws ei ystafell wely yn agor a Shaun yn sefyll yn y drws gan ddweud "hiya Lee are you ok" ac yntau Lee yn ateb "yes spot on thank you" a gadawodd Shaun a chau'r drws y tu ôl iddo.
- 2.0.20 Dywedodd Lee o fewn 5 eiliad i Shaun adael ei ystafell wely fe glywodd sgrech. Aeth Lee i weld beth oedd yn digwydd a gwelodd Tina yn dod allan o'r ystafell wely a dweud ei bod wedi cael ei thrywanu.
- 2.0.21 Dywedodd Lee fod ochr chwith corff Tina yn gwaedu a bod ei dillad yn socian o waed. Roedd Shaun yn sefyll y tu ôl i Tina dal yn y brif ystafell wely.
- 2.0.22 Helpodd Lee Tina i lawr y grisiau, roedd ei chyflwr yn gwaethygu ac roedd yn mynd yn wyn.
- 2.0.23 Galwodd Lee y gwasanaethau brys a daeth ambiwlans i'r tŷ ac aethpwyd â Tina i'r ysbyty leol. Yn drist iawn, methiant fu'r ymdrechion i achub Tina a datganwyd yn ddiweddarach ei bod wedi marw yn yr ysbyty.
- 2.0.24 Dechreuodd yr heddlu chwilio am Shaun a'i gar yn syth a daeth hynny i ben pan welwyd ei gerbyd 5 milltir o gartref y teulu ar yr un diwrnod.

- 2.0.25 Arestiwyd Shaun ar amheuaeth o lofruddio Tina gan Gwnstabl o'r Heddlu o'r Uned Ymateb Arfog. Ni wnaeth Shaun ymateb ar ôl cael ei rybuddio.
- 2.0.26 Ym mis Mai 2018, derbyniodd Shaun ddedfryd yn Llys y Goron. Fe'i dedfrydwyd i garchar am oes gydag argymhelliad y dylai Shaun aros yn y carchar am o leiaf 14 mlynedd am lofruddio Tina cyn bod yn gymwys i gael parôl - dywedodd y Barnwr nad oedd parôl yn awtomatig o bell ffordd.

3.0 CRONOLEG

- 3.0.1 Ganwyd Tina a Shaun yn Iwerddon a symudont i Ogledd Cymru dros 30 mlynedd yn ôl lle magwyd eu mab a'u merch. Datganodd Louise fod yna ddadleuon chwyn wedi bod rhwng ei rhieni a dadleuon treisgar o dro i dro dros nifer o flynyddoedd. Byddai'r dadleuon yn ymwneud ag arian neu un parti yn cyhuddo'r llall o fod yn anffyddlon ac roedd hyn yn thema gyson i ddadleuon dros nifer o flynyddoedd. Prin iawn y cai hyn ei arddangos yn gyhoeddus ac roedd cyfnodau hir heb ddadleuon lle'r oedd y berthynas yn un gariadus a hapus. Yn ystod cyfweiliad, roedd Louise yn dwyn i gof ei bod yn gweld ei mam a'i thad yn ffraeo o'r adeg pan oedd yn tua 6 neu 7 mlwydd oed, a bod y dadlau yn beth cyffredin ar hyd y blynyddoedd. Dywedodd Louise fod y naill barti'n gyfrifol am y dadleuon, gyda'r ddau barti'n medru pryfocio'i gilydd a dechrau ffrae. Mae Louise yn cofio amrediad o ymddygiadau oedd yn gam-drin corfforol yn y cartref a datgelodd fod hyn yn cynnwys gwithio, pwnio neu brocio. Roedd Louise yn gwybod i'r ymosodiadau hyn ddigwydd un neu ddwy waith y flwyddyn. Byddai'r wybodaeth a ddarparodd Louise yn awgrymu fod ymddygiad difriol ar lafar a thrais corfforol yn rhan o batrwm sefydledig yr ymddygiad o fewn cartref y teulu. Nid yw'n afresymol ystyried fod hyn yn digwydd yn amlach a'r hyn y mae Louise yn ei ddisgrifio yw'r digwyddiadau yr oedd wedi'u gweld, nid bob un a ddigwyddodd go iawn. Mae gwybodaeth a rannwyd gan Louise yn awgrymu fod gan Shaun frodyr a chwiorydd oedd yn yfed yn drwm felly mae'n bosib damcaniaethu fod Shaun yn gweld gor-yfed fel rhywbeth arferol yn ei deulu.
- Cadarnhawyd ei fod dal yn medru cyflawni ei swydd ac ar y cyfan nad oedd wedi cael ei herio am hyn yn y gweithle, er nid yw'r cyflogwr yn cadarnhau hynny.
- 3.0.2 Ceir mwy o ddatgeliadau gan Louise a David mewn datganiadau a gafwyd gan yr Heddlu yn fuan ar ôl llofruddiaeth eu mam sy'n darparu tystiolaeth bellach fod diwylliant fod Tina'n ddiodefwr a Shaun yn gyflawnwr trais a cham-drin domestig yn bodoli ers tro ar yr aelwyd. Fodd bynnag roeddynt hefyd wedi gweld ei mam Tina yn cam-drin Shaun yn gorfforol. Roedd y digwyddiadau hyn yn cynnwys:

- Shaun yn pigo ffrae gyda Tina fel arfer ar ôl i Shaun yfed alcohol.
- Shaun yn cyhuddo Tina o gael nifer o garwriaethau y tu allan i'r briodas.
- Shaun yn pigo ffrae am arian.
- Shaun yn pigo ffrae ynghylch materion yn nheulu Tina, yn enwedig ynghylch cred Shaun fod Tina wedi etifeddu tŷ ac wedi ei roi i ffwrdd.
- Shaun yn pigo ffrae am ei fod yn credu fod Tina wedi cynilo swm sylweddol o arian mewn cyfrif ac yn ei gadw oddi wrtho. Roedd Louise a David ill dau yn cofio mai'r dadlau oedd yn arwain at yr ymosodiadau corfforol.

3.0.3 Datganodd Louise mai Shaun oedd yr un mwy ymosodol tra'r oedd Tina o natur llawer mwy tawel. Mewn datganiad i'r Heddlu yn dilyn digwyddiad cam-drin domestig, dywedodd Tina fod arni ofn Shaun pan mae o wedi meddwi a'i fod yn ymosodol a threisgar iawn. Cofia David fod Shaun, ar adegau, wedi ymosod ar Tina yn gorfforol wrth ei dyrnu (weithiau yn ei bol neu asennau), cicio, cripio, gwthio a thynnu ei gwallt - ac ar un adeg fe dynnodd Tina i'r llawr gerfydd ei gwallt. Roedd David yn cydnabod y gallai'r naill barti fod yn dreisgar ond wrth edrych yn ôl roedd yn meddwl fod y rhan fwyaf o'r trais yn dod gan Shaun.

3.0.4 Gwnaeth y patrwm hwn o'u tad yn cam-drin eu mam a bod yn dreisgar effeithio arnynt hwy fel plant. Cofia David pan oedd yn hogyn ifanc nad oedd yn medru ymyrryd yn y ffraeo a'r dadlau a byddai'n ceisio cau allan y sŵn wrth droi ei gerddoriaeth i fyny'n uwch neu roi gobennydd dros ei ben. Cofiodd David hefyd wrth iddo fynd yn hŷn ei fod wedi ymyrryd sawl tro, gan gofio gafael yn Shaun i'w symud oddi wrth Tina - a chael ei feirniadu'n hallt gan ei dad am gymryd ochr ei fam. Cofiodd David un adeg pam oedd wedi ymyrryd ac wedi llusgo ei dad allan o'r tŷ er mwyn cwffio ag ef. Dywedodd David ei fod yn gwybod na fyddai ei rieni eisiau i'r cymdogion neu'r gymuned leol wybod beth oedd yn digwydd ar yr aelwyd. Datganodd Louise ei bod yn cofio Shaun yn cyhuddo Tina o gael carwriaethau gydag amryw ddynion dros nifer o flynyddoedd er hynny creda Louise nad oedd gan Shaun unrhyw dystiolaeth i gefnogi ei honiadau ac nid oedd yn credu fod Tina erioed wedi cael affêr gyda neb.

Dywedodd David a Louise eu bod wedi cael gwybod bod Shaun wedi cael affêr nifer o flynyddoedd yn ôl a'i fod wedi gadael cartref y teulu am gyfnod cyn dychwelyd at Tina. Fel y soniwyd uchod, dim ond pan oedd David yn hŷn y gwnaeth deimlo y gallai ymyrryd am y rhesymau ei fod yn ddiymadferth fel plentyn. Yn neilltuol, ni adroddwyd am yr ymddygiad a'r rheswm mwyaf tebygol oedd osgoi codi cywilydd ar mam neu dad yn gyhoeddus.

3.0.5 Roedd yn ymddangos nad oedd asiantaethau, ffrindiau a'r gymuned ehangach yn ymwybodol o'r hanes hwn o Shaun yn cam-drin ac yn dreisgar tuag at Tina. Y cyswllt cynharaf a gofnodir yn y gronoleg yw ym mis Hydref 2002 pan dderbynia Shaun gefnogaeth gan Nyrs Seiciatryddol Cymunedol Alcohol (CPN) fel rhan o raglen dadwenwyno alcohol. Ychydig o wybodaeth sydd ar gael, fodd

bynag mae'r wybodaeth yn dangos fod Shaun wedi ymroi at y rhaglen ddadwenwyno ac wedi derbyn cefnogaeth gan y CMHT lleol. Roedd y CMHT lleol yn gyfuniad o weithwyr proffesiynol gwaith cymdeithasol, nyrsio, therapi galwedigaethol, seiciatreg a seicolegol. Mae'r cofnodion o'r cyfnod hwnnw yn llawn gwybodaeth am ei fod yn disgrifio dibyniaeth barhaus Shaun ar alcohol ac effaith hyn ar ei berthynas gyda Tina a dywed y cofnod, "Dyweddodd Shaun fod ganddo hanes maith o gamddefnyddio alcohol a nododd fod ei wraig Tina wedi chwarae rôl allweddol yn ei gael i chwilio am help gan ei bod wedi dweud *I am not going to take this crap any longer*".

3.0.6 Mae cofnodion o'r amser hwn yn disgrifio'r deinameg yn y berthynas rhwng Tina a Shaun "Fel arfer mae'r claf yn yfed am ychydig o ddyddiau ar y tro nes bod ei wraig yn dweud wrtho am adael cartref y teulu - mae'r claf yn gadael, yna'n dychwelyd yn sâl ac mewn dolur, ac yn ymddiheuro. Gwneud ei benyd, gwisgo sach liain a lludw am ychydig ddyddiau. Mae o'n gwneud beth mae o i fod i'w wneud ac yn cael ei hun yn ôl yn y teulu. Mae'r ffactor rheolaeth yn elfen fawr yn eu perthynas." Caewyd yr achos ym mis Ionawr ac er na nodir y flwyddyn, mae'r Panel yn derbyn mai yn 2003 oedd hyn. Rhwng 2003 a 2013 mae rhai enghreifftiau o gyswllt gyda'r GP nad yw'n berthnasol i broblemau iechyd meddwl na Cham-drin Domestig. Disgrifiodd Louise ei thad fel alcoholig oedd yn medru byw fel rhan o gymdeithas (*functioning alcoholic*), gan nodi y byddai'n yfed yn ystod gyda'r nosau ac ar benwythnosau a rhyw 3 neu 4 gwaith y flwyddyn byddai'n yfed i'r fath raddau na fyddai'n medru mynd i'w waith ac felly'n ffonio ei waith i ddweud ei fod yn sâl. Er bod ei gyflogwr wedi gwrthod bod yn rhan o'r adolygiad, roeddynt wedi nodi mewn datganiad i'r Heddlu nad oedd cofnod salwch Shaun yn broblem, ond roedd anadl Shaun yn arogl o alcohol ar adegau.

3.0.7 Cyflogwyd Tina gan Adran Gofal Cymdeithasol Oedolion, Cyngor Gwynedd mewn cartref preswyl, ni roddodd unrhyw arwydd fod yna broblemau yn ymwneud â cham-drin domestig ar yr aelwyd. Bu Tina i ffwrdd o'r gwaith am gyfnodau yn 2013 ar ôl mynd at ei GP oherwydd problemau cefn ond nid oedd dim yn anghyffredin am ei chofnod salwch. Adnabuwyd Tina fel person oedd ag ymroddiad gwych i'w gwaith ac roedd hi'n teimlo ei bod yn medru cyfathrebu gyda'i rheolwyr. Ni chododd unrhyw broblemau personol neu ddomestig. Roedd Tina yn berson preifat a gwelwyd mewn datganiad i'r heddlu gan un o gydweithwyr Tina, oedd hefyd yn ffrind iddi tu allan i'r gwaith mai prin iawn oedd Tina yn trafod ei bywyd preifat ac nid oedd yn siarad am ei pherthynas â Shaun.

3.0.8 Ddiwedd mis Mawrth 2016, adroddodd Louise ar ymosodiad domestig ar ran Tina. Yn ei datganiad i'r Heddlu dywedodd Tina bod ei gŵr, Shaun, wedi ymosod arni yn ei chartref. Dywedodd ei fod wedi ei thynnu oddi ar ei chadair yn yr ystafell fyw, gan achosi iddi ddisgyn i'r llawr a bod Shaun wedi penlinio drosti ac wedi ei phrocio yn ei brest sawl gwaith. Honnodd Tina ei bod wedyn wedi dyrnu ochr chwith ei chorff gan daro yn erbyn ei braich chwith a'i

hysgwydd ac achosi cleisiau. Anafodd Tina ei phen-glin dde hefyd, wrth ei losgi ar y carped pan ddisgynnodd i'r llawr. Mae'r disgrifiad hwn o'r ymosodiad yn adlais o brofiadau plentynod Louise o'i thad yn peri camdriniaeth a thrais i'w mam. Dywedodd Tina wrth y swyddogion y byddai gan Shaun farc coch ar ei wyneb ar ôl iddi ei daro i amddiffyn ei hun. Yr anafiadau a gafodd Tina oedd cleisiau ar ei braich, ei brest a'i hysgwydd a llosg ar ei phen-glin. Yn dilyn adroddiad Louise am ymosodiad honedig Shaun ar Tina, arestwyd Shaun o fewn 20 munud.

3.0.9 Hebryngwyd Shaun i ddalfa leol ac yn ystod oriau mân y bore'r diwrnod a ganlyn cynhaliodd NWP gyfweiliad ag unigolyn dan amheuaeth. Yn ddiweddarach y bore hwnnw, cafodd Shaun ei ryddhau o'r Ddalfa ar fechnïaeth i ymddangos o flaen Llys yr Ynadon ymhen mis. Roedd Amodau'r Fechnïaeth fel a ganlyn:

- I beidio â chysylltu â Tina na Louise yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol am unrhyw reswm
- I beidio â mynd i gartref y teulu, Bangor
- I beidio â mynd i weithle Tina am unrhyw reswm

3.0.10 Yn ystod y diwrnod hwnnw cyfwelwyd â Louise a Tina a rhoddont ddatganiadau i Swyddogion yr Heddlu a chwblhawyd CID 16 lle cofnodwyd sgôr DASH o 8 a oedd wedi'i graddio'n briodol fel risg canolig. Rhoddodd yr Heddwes a atebodd yr alwad gerdyn Z i Tina - cerdyn dwyieithog sy'n darparu gwybodaeth ac yn cyfeirio at wasanaethau ac a roddir i bob dioddefwr.

3.0.11 Rhannwyd y CID 16 gyda Gorwel y darparwr Cam-drin Domestig arbenigol, Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a'r Swyddog Cam-drin Domestig (DAO). Penderfynodd y DAO yn gywir fod yr asesiad risg yn ganolig a chysylltodd gyda Tina i weld a oedd hi angen unrhyw gefnogaeth bellach, ac fe wrthododd hynny. Rhannwyd y CID 16 gyda Gorwel a bu iddynt gysylltu â Tina yn syth. Roedd Tina wedi mynegi dymuniad i gael ei chefnogi trwy'r broses Cyfiawnder Troseddol ond nid oedd yn dymuno parhau â Gorchymyn Atal. Rhannodd y Cynghorydd Cam-drin Domestig Annibynnol (IDVA) (fe'i gelwir yn IDVA 1 er dibenion yr adroddiad hwn) y wybodaeth hon gyda'r Heddlu.

3.0.12 Ar 20.22 y diwrnod hwnnw derbyniodd NWP alwad gan Greater Manchester Police yn eu cyngori eu bod wedi derbyn gwybodaeth gan fab Shaun. Dywedodd David fod ei dad wedi cysylltu ag ef ar y ffôn ac wedi dweud ei fod yn bwriadu lladd ei hun wrth neidio o flaen trê. Dywedodd David ei fod yn medru clywed trenau yn y cefndir pan oedd ei dad ar y ffôn. Rhoddwyd y wybodaeth hon i BTP. Aeth Swyddogion NWP i Orsaf Drenau Bangor yn ogystal â swyddogion BTP - gwelwyd Shaun yn cerdded i mewn i'r twnelau trê i gyfeiriad Caergybi. Swyddogion Heddlu Trafnidiaeth Prydain wnaeth arwain ar y digwyddiad o ran mai hwy oedd y rhai aeth ar y trac a dal Shaun.

Rhoddodd BTP wybod i NWP ac i'r swyddogion eu bod yn mynd â Shaun i Uned Iechyd Meddwl Aciwt yn yr ysbyty lleol. Daliwyd Shaun dan Adran 136, Deddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn ei ddiogelwch ei hun.

- 3.0.13 Cafodd Shaun asesiad seiciatryddol wedyn yn yr Uned Iechyd Meddwl Aciwt mewn ysbyty lleol. (Mae'r broses asesu A136 yn cynnwys staff a gyflogir gan BIPBC a staff a gyflogir gan Gofal Cymdeithasol Oedolion Cyngor Gwynedd). Yn yr achos hwn roedd Oedolyn D - Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl yn gyflogedig i Gyngor Gwynedd. Cynhaliwyd yr asesiad ar y cyd gan BIPBC a Chyngor Gwynedd. Asesir bod Shaun yn ddiogel i gael ei ryddhau i'r Gwely a Brechwast yr oedd wedi bod yn byw ynddo ers iddo gael ei arestio, mae'n debyg mai ei fwriad yw dychwelyd i Iwerddon. Fe'i canfuwyd yn cerdded ar hyd y traciau i gyfeiriad y porthladd. Ni rannwyd yr asesiad hwn gyda'r GP.
- 3.0.14 Pan oedd ar y trac rheilffordd ffoniodd Shaun Louise a Tina yn gofyn iddynu eu datganiadau yn ôl gan dorri amodau dim cyswllt ei fechnïaeth. Cysylltodd Louise a Tina â'r Heddlu a thynnu eu datganiadau yn ôl. Wedyn penderfynodd Tina beidio â chefnogi erlyn Shaun am yr ymosodiad. Credir mai'r digwyddiad hwn a arweiniodd at benderfyniad Tina i dynnu ei datganiad yn ôl am ymosodiad Shaun. Gwneir ymdrechion i'w chefnogi i barhau â'r erlyniad. Wedyn mae DAO yn cysylltu â Tina ac yn rhoi gwybod iddi, er gwaethaf y ffaith ei bod wedi tynnu'r datganiad yn ôl - y bydd y mater yn parhau i fynd i'r llys oherwydd polisi Cam-drin Domestig NWP. Credai'r DAO fod Tina yn deall hyn ac y byddai'r amodau mechnïaeth a roddwyd i Shaun yn parhau yn eu lle. Fodd bynnag, teimlodd Louise nad oedd NWP wedi egluro'n ddigonol y rhesymau am gael datganiadau tyst, h.y. y gellid defnyddio'r datganiadau fel tystiolaeth i erlyn Shaun yn y Llys.
- 3.0.15 Ffoniodd IDVA'r Uned Amddiffyn Pobl Fregus (PBPU) Tina y diwrnod canlynol ynghylch tynnu ei datganiad yn ôl gan ofyn yn blaen iddi os oedd hynny oherwydd ei bod dan bwysau i wneud hynny. Dywedodd Tina, "mai ei phenderfyniad hi yn unig oedd tynnu'r datganiad yn ôl, dywed hefyd ei bod yn gwrthod unrhyw gefnogaeth bellach ond yn falch fod asiantaethau mor barod i helpu." Deuddydd yn ddiweddarach mae Tina yn cysylltu â'r IDVA gan adael neges ffôn yn holi a fyddai amodau mechnïaeth yn atal ei merch, Louise, rhag mynd gyda Shaun i Alcoholics Anonymous (AA). Dengys y cofnodion fod swyddog gweinyddol IDVA wedi dychwelyd yr alwad ac wedi ei chynghori y byddai hyn yn torri amodau'r fechnïaeth. Nid yw galwad pellach rhwng Tina a'r IDVA yn llwyddo i newid penderfyniad Tina i dynnu ei datganiad yn ôl, mae'r IDVA yn cynnig cefnogaeth barhaus er gwaethaf yr erlyniad.
- 3.0.16 Y diwrnod cyn dyddiad Gwrandawriad y Llys, ceisia'r IDVA gysylltu â Tina i gynnig cefnogaeth a'r opsiwn o fynd am orchymyn atal ond nid oes modd cael gafael arni. Wedi peth ystyriaeth, gollyngodd Gwasanaeth Erlyn y Goron y cyhuddiadau yn erbyn Shaun, ac nid oedd gofyn iddo fynychu'r llys. Roedd hyn ar y sail fod Tina a Louise wedi tynnu eu datganiadau yn ôl a barn yr Heddlu

oedd ei bod yn amhriodol gwneud i'r dioddefwr a'i merch fynychu yn groes i'w hewyllys.

- 3.0.17 Cwestiynodd Louise a oedd ei mam wedi derbyn cyngor a gwybodaeth briodol yn dilyn y digwyddiad trais domestig ym mis Mawrth 2016.
- 3.0.18 Wrth barhau i fyw i ffwrdd o gartref y teulu, ac mewn llety Gwely a Brecwast, rhoddodd Shaun y gorau i yfed alcohol a dechreuodd fynychu Alcoholics Anonymous yn rheolaidd. Dywedodd Louise ei fod wedi peidio ag yfed alcohol am oddeutu 18 mis. Yn ystod y cyfnod hwn mae cofnodion Gorwel yn dangos ym mis Mai 2016 fod Tina a Shaun yn ôl yn byw gyda'i gilydd.
- 3.0.19 Nid oes unrhyw honiadau pellach wedi'u gwneud na phryderon wedi'u codi gan eraill i asiantaethau sy'n gysylltiedig â Cham-drin Domestig yn ystod 2016. Fodd bynnag, ym mis Mawrth 2017 pan welodd Tina ei GP am broblemau'n gysylltiedig â cholled yn y teulu, soniodd am ei phriodas yn chwalu, ond ni chofnodwyd unrhyw ddatgeliadau'n gysylltiedig â cham-drin domestig. Rhannodd Tina gyda'i GP ei bod yn teimlo'n isel weithiau a bod yna hanes iselder yn y teulu. Awgrymodd y GP wasanaeth Parabl sy'n darparu therapïau siarad i hyrwyddo adferiad ac i rymuso unigolion sydd â phroblemau iechyd meddwl mân i gymedrol. Ar y pryd, nid oedd y GP yn ymwybodol fod ei gŵr wedi cael ei arestio am ymosod arni flwyddyn ynghynt gan nad oedd wedi cael gwybod am yr asesiad Adran 136 ar ôl i Shaun gael ei arestio ac yna ceisio lladd ei hun.
- 3.0.20 Rhwng Mai 2017 a Gorffennaf 2017, mynychodd Shaun ei Feddygfa ar saith achlysur. Roed Shaun yn ymgysylltu'n rheolaidd â'r Meddygon Teulu, yn mynychu apwyntiadau, yn cael meddyginiaeth ar bresgripsiwn, yn cael adolygiadau ac asesiadau rheolaidd ac yn y pendraw wedi dangos gwelliant yn statws ei iechyd. Rhestrir y rhain yn fanwl wrth i Shaun ddatgelu gwybodaeth arwyddocaol yn gysylltiedig â'i deimladau am Tina â chyflwr ei feddwl o ran eu perthynas. Yn yr apwyntiad cyntaf ym mis Mai 2017 caiff Shaun bresgripsiwn o dabledi cysgu am nad yw'n medru cysgu oherwydd ei fod yn profi paranoia ac yn cael meddyliau ymwthiol fod ei wraig yn cael affêr. Roedd y cofnodion yn cydnabod fod Shaun yn alcoholig sy'n gwella (mewn rhaglen) sy'n derbyn cefnogaeth barhaus gan fentor a chyfarfodydd grŵp a heb yfed alcohol ers dros 12 mis. Mae'r cofnod yn nodi fod gan Shaun wraig a theulu cefnogol. Mewn apwyntiad dilynol, wythnos yn ddiweddarach, mae'n datgelu ei fod dal yn cael trafferth cysgu. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal am gyflogaeth Shaun a sut mae'n mwynhau ei waith a'r rwtîn ac yn arwyddocaol o amgylch meddyliau ymwthiol Shaun yn ymwneud â'r gred fod ei wraig yn cael affêr a sut y mae'n barod i adael adref a rhentu tŷ. Trafododd y GP y posibilrwydd i Shaun gael mynediad i wasanaeth cwnsela Relate. Nid oes unrhyw gofnodion fod Shaun wedi dilyn y trywydd hwn.

- 3.0.21 Yn y trydydd apwyntiad bythefnos yn ddiweddarach daw ffrind yn gwmni i Shaun sy'n dweud ei fod yn mynd gydag ef i Alcoholics Anonymous. Mae Shaun yn datgelu paranoia parhaus gan nodi ei fod wedi cyhuddo Tina o roi rhywbeth yn ei fwyd a'i ddiod. Mae o dal methu cysgu ac yn trychinebu yn y nos a chael meddyliau paranoid, poeni y bydd ei wraig yn ei gyhuddo o'i cham-drin ac yn chwyddo hyn i fyny ac i fyny yn ei ben. Nid yw Shaun yn yfed ond mae o'n ysmygu'n drwm ac wedi colli pwysau.
- Mae'r nodiadau hefyd yn cofnodi fod Shaun wedi bod yn profi cur pen ym mlaen ei ben ers pythefnos sy'n ei ddeffro yn y nos, rhywbeth nad ydi o wedi'i gael o'r blaen a gwneir cyfeiriad niwrolegol i Ysbyty Arbenigol ynghylch hyn. Cofnoda'r GP fod Shaun yn edrych fel ei fod ar binnau ychydig ond yn cynnal sgwrs dda. Datgan y cofnodion hefyd fod Shaun newydd ddychwelyd o lwerddon gyda'i wraig. Noda'r meddyg nad oes seicosis aciwt ond yn amlwg yn orbryderus ac ychydig o baranoia a dim meddyliau morbid. Rhoddir presgripsiwn o gwrs byr o feddyginiaeth gwrth-bryder.
- 3.0.22 Wythnos yn ddiweddarach ym mis Mehefin 2017 cynhelir adolygiad dilynol a chaiff Shaun ei asesu gan GP Dr 2. Dywed nodiadau'r Meddyg "Mae'n ymddangos fel gŵr gwahanol! Daeth i mewn yn hamddenol ac yn gwenu, dim ar bigau'r drain fel yr oedd wythnos yn ôl. Dywed ei fod wedi penderfynu gwahanu oddi wrth ei wraig yr wythnos ddiwethaf. Mae wedi gadael cartref y teulu ac mae'n chwilio am lety dros dro. Mae'n teimlo'n gryf mai hwn yw'r penderfyniad cywir. Mae wedi cysgu pob nos a heb gael cur yn ei ben." Gan fod cur pen Shaun wedi gwella penderfynodd ganslo'r apwyntiad niwrolegol arfaethedig. Nododd y Meddyg mai ei phryder cychwynol hi oedd y newid mewn personoliaeth gyda'r cur pen ond nid oedd hynny i weld yn digwydd mwyach ac roedd yn debygol mai ymateb i straen oedd hynny.
- 3.0.23 Yn y pumed apwyntiad, wythnos yn ddiweddarach yng nghanol mis Mehefin 2017 gwelir bod Shaun yn cynnal iechyd gwell er ei fod wedi cael wythnos arall i ffwrdd o'r gwaith i roi amser i Shaun symud i dŷ newydd. Nid yw Shaun yn mynychu ei apwyntiad Niwrolegol. Yn y chweched apwyntiad â'r GP yng nghanol mis Mehefin 2017, caiff Shaun ei asesu gan Dr 2. Disgrifir Shaun fel 'Gwneud yn dda, edrych yn hamddenol, gwenu, cyfathrebu'n dda. Gobeithio mynd yn ôl i'w waith teimlo'n barod.' Dywed Shaun ei fod wedi symud yn ddidrafferth ac yn bwriadu cyfarfod â'i wraig i fynd drwy ambell beth ar y penwythnos ac mae'n parhau i ddweud mai hyn oedd y peth iawn i'w wneud. Mae Shaun yn cytuno i drïo dychwelyd i'r gwaith yn raddol dros gyfnod o wythnos. Nid yw Shaun yn mynychu chweched apwyntiad a oedd wedi'i gynllunio ar ddechrau mis Gorffennaf ac anfonwyd llythyr gydag apwyntiad ar gyfer y diwrnod canlynol, ond nid yw'n mynychu hwn ychwaith. O gwmpas yr amser hwn, nid oes posib cysylltu â Shaun oherwydd pryderon ynghylch prawf gwaed nad oedd yn gysylltiedig â'r mater hwn.

- 3.0.24 Yng nghanol mis Gorffennaf 2017 cafodd Shaun, a Tina yn gwmni iddo, ei asesu gan Dr 2. Dywed y cofnod “wedi'i weld gyda'i wraig Tina, maent yn siarad nawr. Parhau i deimlo'n well ac yn edrych yn ôl ar ba mor ddrwg yr oedd fis diwethaf. Sylweddoli fod ei feddyliau yn mynd tu hwnt i reolaeth. Mae'n llwyr gredu fod ei wraig wedi cael affêrs, fod rhywun wedi rhoi meddyginiaeth iddo a'i fod yn creu cynllwyniau ac is-gynllwyniau am bobl. Sylweddoli nawr fod y paranoia y tu hwnt i reolaeth. Ddim wedi cael cur pen wedyn, gweithio'n dda yn y gwaith. Wedi trafod gyda'r claf a Tina- ei gyfeirio i CMHT rhag ofn i hyn ddigwydd eto.” Mae Dr 2 y gwneud cyfeiriad y diwrnod hwnnw i CMHT BIPBC gan nodi Ymateb Aciwt i Straen fel y rheswm.
- 3.0.25 Mae'r wybodaeth gefndirol a ddarparwyd yn nodi "Gwelais y Claf (Shaun) tua dau fis yn ôl pan oedd yn ymddangos mewn tipyn o argyfwng. Mae'n gweithio fel hyfforddwr Cefnogi Cwsmeriaid, yn mwynhau ei swydd ac mae'n rhoi rwtîn iddo. Roedd yn rhaid iddo gymryd wythnos i ffwrdd o'r gwaith ar y pryd am ei fod yn teimlo fod sawl peth yn chwarae ar ei feddwl, mae'n alcoholig sy'n gwella. Wedi bod yn sych ers dros flwyddyn bellach ac yn derbyn cefnogaeth barhaus gan AA. Fe ddatblygodd deimladau cryf fod ei wraig yn cael affêr, roedd hi'n gwadu hyn yn llwyr. Roedd yn teimlo fod rhywun yn rhoi meddyginiaeth iddo ond nid oedd yn medru cysgu ac roedd yn hel meddyliau trychinebus. Un tro, fe'i gwelais gyda ffrind cefnogol o AA oedd yn eithaf pryderus ei fod yn dioddef problemau iechyd meddwl difrifol. Daeth yn paranoid y byddai ei wraig yn ei gyhuddo o'i cham-drin ac fe chwyddodd hynny yn ei feddwl. Nid oedd yn bwyta, roedd yn ysmegu'n drwm, cwyno ei fod yn cael cur ym mlaen ei ben. Cymerodd amser i ffwrdd o'r gwaith a phenderfynu gadael cartref y teulu, gwelais ef wythnos yn ddiweddarach ac roedd yn ymddangos fel person gwahanol, roedd y cur pen wedi mynd, roeddwn wedi ei gyfeirio am sgan ymennydd oherwydd dwyster y cur pen oedd yn gysylltiedig â newid yn ei bersonoliaeth, ond fe ganslodd yr apwyntiad wrth iddo wella. Mae bellach yn ôl yn y gwaith ac yn gweithredu'n dda. Daeth i mewn gyda'i wraig heddiw (maent yn cyd-dynnu eto) ac mae hi'n eithaf pryderus am ba mor paranoid oedd o. Mae Shaun yn bryderus y gall hyn ddigwydd eto. Yn ffodus, yn ystod yr amser hwn ni wnaeth droi at yfed alcohol.”
- 3.0.26 Ar yr un diwrnod ganol mis Gorffennaf 2017 mae yna gofnod cyfatebol gan Ysbyty Iechyd Meddwl BIPBC sy'n dweud, “Cyfeiriad gan y GP - nodwyd fel alcoholig sy'n gwella gyda chefnogaeth gan AA. Wedi datblygu teimladau cryf fod ei wraig yn cael affêr (gwadu'n llwyr) a theimlo fod rhywun yn rhoi meddyginiaeth iddo, ond nid oedd yn medru cysgu ac yn hel meddyliau trychinebus. Daeth yn paranoid y byddai ei wraig yn ei gyhuddo o'i cham-drin. Cymrodd amser i ffwrdd o'r gwaith a phenderfynu gadael cartref y teulu. Meddyg Teulu wedi ei weld wythnos yn ddiweddarach - bellach yn ôl yn y gwaith ac yn gweithredu'n dda. Daeth i mewn gyda'i wraig heddiw (maent yn cyd-dynnu eto) ac mae hi'n eithaf pryderus am ba mor paranoid oedd o. Mae Shaun yn bryderus y gall hyn ddigwydd eto - drwy gydol yr amser hwn ni

wnaeth ddechrau yfed.” Cafodd achos Shaun ei adolygu mewn cyfarfod SPOA bedwar diwrnod yn ddiweddarach ym mis Gorffennaf 2017. Penderfynwyd nad oedd Shaun yn gyfeiriad priodol ac efallai y byddai Shaun yn dymuno ystyried cael mynediad i wasanaethau Parabl gan barhau i weld ei GP. Y farn oedd y gwnaed cyfeiriad y GP i'r CMHT pan oedd y teimladau o baranoia wedi pasio felly ni fyddai wedi bod yn gymwys am fewnbwn / cefnogaeth gan y CMHT. Rhoddir gwybod i'r Feddygfa am y penderfyniad hwn ar unwaith ac fe adawyd neges ar ffôn symudol Shaun ac wedi anfon llythyr at Shaun yn gofyn iddo gysylltu â'r GP i drafod.

- 3.0.27 Mae seithfed cyswllt y GP gyda Shaun, a'r cyswllt olaf, ar y diwrnod hwnnw yng nghanol mis Gorffennaf 2017 a dywed 'Ymgynghoriad ffôn Dr 2 - CMHT wedi ffonio a gadael neges eu bod yn symud y claf i Parabl. Nid yw'n glir os ydyn nhw'n rhoi'r wybodaeth hon iddo ef oherwydd pan ffoniais y tîm ar ddyletswydd yn ôl nid oeddynt ar gael. Mi anfona i'r wybodaeth hon i'r claf gan nad yw ei ffôn symudol yn cysylltu a gofyn iddo gysylltu â mi i drafod. Llythyr wedi'i anfon i'r claf.'
- 3.0.28 Dau ddiwrnod cyn y llofruddiaeth mynychodd Tina a Shaun ddigwyddiad rasio ceffylau. Yn y digwyddiad hwn gwelwyd Shaun yn gweiddi ac yn gwneud ystumiau ar Tina am ei fod yn credu ei bod yn cael affêr a'i bod wedi trefnu i'r cydweithiwr oedd yn cael yr affêr i fod yn y rasys.
- 3.0.29 Nid oedd cyswllt pellach gan Tina na Shaun gydag unrhyw asiantaeth o'r pwynt hwn nes marwolaeth drasig Tina deuddydd yn ddiweddarach. Pan gyfarfu'r Cadeirydd a'r awdur gyda Louise, mynegodd eu dymuniad i gael gwell dealltwriaeth o gyswllt Shaun gyda'i GP, y CMHT a'r Tîm Niwrolegol. Mae'r testun uchod yn darparu'r manylion hanfodol.

4.0 TROSOLWGW

- 4.0.1 Mae Louise a David yn disgrifio cael eu magu mewn cartref lle'r oedd dadleuon am arian a chenfigen rhwng eu rhieni yn gallu arwain at y tad yn cam-drin ac weithiau yn ymddwyn yn dreisgar tuag at eu mam a'i fod yn rhan o'u plentyndod. Roeddynt yn dyst i ddadleuon y byddai eu tad Shaun yn eu gwaethygu efallai dwywaith y flwyddyn i ddyrnu'r stumog a'r asennau, procio, gwthio ac mewn un achos tynnu Tina i'r llawr gerfydd ei gwallt. Roeddynt hefyd yn disgrifio amseroedd hapusach pan roeddynt yn tybio fod y berthynas rhwng Shaun a Tina yn un gariadus a hapus. Roedd ymddygiad Shaun yn effeithio ar y plant gyda David yn ceisio ymyrryd wrth iddo fynd yn hŷn. Cadwyd y cam-drin a'r trais hwn yn gyfrinach gan y teulu gyda David yn cydnabod fod modd atal ei dad gyda'r posibilrwydd y byddai'r gymuned yn dod i wybod. Nid oedd Tina yn

cyfaddef wrth eraill, gyda'i ffrind agos yn y gwaith yn disgrifio Tina yn peidio â rhannu dim am ei pherthynas gyda Shaun.

4.0.2 Y cofnod cyntaf a geir fod asiantaethau'n gwybod am Gam-drin Domestig yw ym mis Hydref 2002 pan mae Shaun yn datgelu i'r CMHT fod gor-yfed alcohol yn achosi patrwm o ymddygiad sy'n ailadrodd ei hun ac yn effeithio ar ei berthynas â Tina. Mae cofnod CMHT yn nodi "Mae'r ffactor rheolaeth yn elfen fawr yn eu perthynas." Er nodi hyn, ni wnaeth y pryder hwn arwain at unrhyw ymchwilio pellach nac unrhyw gamau gweithredu megis cyfeiriad i wasanaeth arbenigol a fyddai bryd hynny yng Ngogledd Cymru fod wedi bod yn Cymorth i Ferched ar gyfer merched oedd yn ddiodefwr.

4.0.3 Nid oes unrhyw gofnod o nodi neu adrodd ar bryderon Cam-drin Domestig i unrhyw asiantaeth wedi hynny nes diwedd mis Mawrth 2016 pan mae Louise yn adrodd i NWP ar ymosodiad Shaun ar Tina. Gwyddom nad yw cofnodion o alwadau i'r heddlu bob amser yn ddangosydd da o risg o niwed mewn ymosodiadau domestig am fod merched yn debygol o brofi 35 o ymosodiadau corfforol cyn iddynt gysylltu â'r heddlu. O ystyried y llinell amser, gall hyn fod wedi digwydd dros nifer o flynyddoedd a'i fod wedi cael ei dderbyn yn y cartref. Ar y diwrnod hwnnw, mae'r Heddlu yn cyfweld â Tina a Louise ac yna yn oriau mân y bore canlynol maent yn cyfweld â Shaun. Caiff Shaun ei rhyddhau ar Fechnïaeth yr Heddlu gydag amodau ond yn bygwth lladd ei hun yn ddiweddarach. Mae Shaun yn siarad gyda'i fab nad oedd yn byw'n lleol ar y pryd ac mae David yn rhoi gwybod i Greater Manchester Police sy'n rhoi gwybod i NWP. Caiff Shaun ei ddal gan Heddlu Trafnidiaeth Prydain gyda chefnogaeth NWP dan Adran 136 y Ddeddf Iechyd Meddwl er mwyn ei ddiogelwch ei hun.

Caiff ei asesu yn ddiogel i gael ei ryddhau i'r Gwely a Brechwast y mae wedi bod yn aros ynddo ers i'w briodas chwalu. Gwnaeth yr ymddygiad hwn gan Shaun beri i Tina benderfynu tynnu ei honiadau o gam-drin yn ôl. Nid oes unrhyw gofnod fod ymddygiad Shaun yn rheoli a gorfodi wedi cael ei ystyried yn ystod yr asesiad hwn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu nad oedd hynny'n digwydd yn rheolaidd heb ei ddogfennu. Nodwyd dymuniad Shaun i ddychwelyd i Iwerddon ac mae'n bosib fod hynny wedi rhoi peth sicrwydd nad oedd yn fygythiad i Tina mwyach, dynes a honnwyd iddo ymosod arni llai na 24 awr ynghynt.

4.0.4 Mae ymateb NWP i adroddiad Louise ym mis Mawrth 2016 fod Tina yn dioddef Cam-drin Domestig pan gyflawnwyd DASH a chyfeiriwyd at Wasanaeth Arbenigol Cam-drin Domestig, ac wedyn arestio, cwestiynu a rheoli Shaun wedi hynny yn ymddangos yn amserol ac yn drylwyr. Edrychodd y Panel ar gysylltiad a rhyngweithiad NWP gyda Shaun a chasglu fod eu camau gweithredu yn gyson â lefel y gwasanaeth y gellid ei ddisgwyl. Ni ddarganfu'r Panel unrhyw achos lle'r oedd yr heddlu wedi gwyro oddi wrth bolisi neu broses ac nid oedd unrhyw bwytiau dysgu wedi'u nodi.

- 4.0.5 Edrychodd y Panel ar gysylltiad a rhyngweithiad BTP gyda Shaun a chasglu fod eu camau gweithredu yn gyson â lefel y gwasanaeth y gellid ei ddisgwyl. Ni ddarganfu'r Panel unrhyw achos lle'r oedd yr heddlu wedi gwyro oddi wrth bolisi neu broses ac nid oedd unrhyw bwyntiau dysgu wedi'u nodi.
- 4.0.6 Yn dilyn y digwyddiad Cam-drin Domestig ym mis Mawrth 2016 mae'r Heddlu yn rhoi gwybod i Gorwel, y Gwasanaeth Cam-drin Domestig Arbenigol sy'n cysylltu â Tina'n syth i gynnig cefnogaeth ac opsiynau eraill megis Gorchymyn Atal. Yn dilyn penderfyniad Tina i dynnu ei chefnogaeth o'r erlyniad yn ôl (creda'r Panel fod hyn yn sgil galwad Shaun o'r traciau rheilffordd ar y noson y credant iddo geisio lladd ei hun) mae'r IDVA yn cysylltu â Tina ddwy waith ond nid ar ôl hynny nes ei bod yn fis yn ddiweddarach, y diwrnod cyn yr oedd Shaun i fod i ymddangos yn Llys yr Ynadon. O ran y diffyg cyswllt rhwng yr IDVA a Tina rhwng diwedd Mawrth a'r cyfnod pedair wythnos oedd yn arwain at yr achos llys, derbyniodd Gorwel nad hyn oedd beth fyddai wedi ei ddisgwyl o ran ymarfer IDVA. Ers digwyddiadau 2016 mae'r gwasanaeth erbyn hyn yn wasanaeth wedi'i gomisiynu ac mae'n gweithio i gael ei achredu gan Leading Lights. Yr arfer nawr yw mai dim ond y sawl sy'n cael eu hasesu fel dioddefwyr risg uchel o Gam-drin Domestig fyddai'n cael eu cyfeirio i wasanaeth IDVA a disgwylir cynnal cyswllt wythnosol trwy gydol y gefnogaeth gan y gwasanaeth. Mae yna bellach Arweinydd Tîm IDVA sy'n goruchwyllo pob IDVA ac mae polisi rheoli achos cadarn wedi'u cyflwyno sy'n amlinellu disgwyliadau clir o ran cyswllt, cofnodion achos a phrosesau archwilio ffeiliau. Nodir hefyd pe bai achos Tina yn digwydd nawr, ni fyddai wedi cyrraedd y meini prawf risg uchel i dderbyn gwasanaeth IDVA a byddai wedi cael ei chyfeirio i'r Tîm Cefnogi yn ôl yr Angen yn y Gymuned lle disgwylir cyswllt pob wythnos hefyd. Derbyniodd y Panel y farn hon gan nodi ei bod yn annhebygol fod y diffyg cyswllt yn arfer gyffredin yr adeg honno, a'i fod yn fwy tebygol o fod yn eithriad.
- 4.0.7 Ystyriodd y Panel ymglymiad a rhyngweithiad Gorwel gyda Tina a chasglodd, ac eithrio diffyg cyswllt IDVA yn ystod cyfnod o bedair wythnos, fod y camau gweithredu yn gyson â lefel y gwasanaeth y gellid ei ddisgwyl. Ni ddarganfu'r Panel unrhyw achos arwyddocaol lle'r oeddent wedi gwyro oddi wrth bolisi neu broses.
- 4.0.8 Wrth barhau i fyw i ffwrdd o gartref y teulu, ac mewn llety Gwely a Brecwast, rhoddodd Shaun y gorau i yfed alcohol a dechreuodd fynychu Alcoholics Anonymous yn rheolaidd. Dywedodd Louise ei fod wedi peidio ag yfed alcohol am oddeutu 18 mis. Ym mis Mai 2016 roedd Tina a Shaun yn ôl yn byw gyda'i gilydd.
- 4.0.9 Ym mis Mai 2017, mae Shaun yn mynd at y GP ac yn datgan er gwaethaf problem hirdymor gyda chamddefnyddio alcohol ei fod wedi bod yn ymwrthod ag alcohol ac yn mynychu AA gyda chefnogaeth mentor. Mae'r mentor yn mynychu'r Feddygfa gydag ef ac yn mynegi pryder fod Shaun yn dioddef o salwch iechyd meddwl. Un o'r symptomau mae Shaun yn eu disgrifio i'r GP yw

meddyliau ymwthiol nad yw'n gallu eu rheoli, mae'r meddyliau hyn yn ymwneud ag o'n credu fod Tina yn cael affêr, roedd y rhain yn feddyliau cenfigennus a pharanoid a hanes o wahanu.

- 4.0.10 Dywedodd y Feddygfa nad oeddynt wedi derbyn copi o asesiad CMHT ym mis Mawrth 2016 wedi iddo gael ei gadw dan adran 136 y Ddeddf Iechyd Meddwl. Nid oedd y feddygfa'n ymwybodol fod Shaun wedi cael ei arestio yn y gorffennol am ymosodiad domestig a hefyd am gerdded ar drac rheilffordd gyda'r bwriad o ladd ei hun. Yn ystod y cyfweiliad â'r Cadeirydd a'r Awdur, datganodd Dr 1 a Dr 2 efallai y byddai derbyn y wybodaeth honno wedi bod yn gymorth, a gellid bod wedi'i chynnwys gyda'r cyfeiriad i CMHT. Nid oedd unrhyw awgrym o gael y wybodaeth honno y byddai'r Meddygon Teulu wedi gweithredu mewn unrhyw ffordd wahanol. Yn ystod y cyfweiliad ar gyfer yr adolygiad gyda Dr 1 a Dr 2, roeddynt yn disgrifio Shaun fel rhywun craff iawn drwy gydol y cyfnod asesu 10 wythnos ac nad oedd Shaun yn peri risg iddo ef ei hun ac nad oedd wedi gwneud unrhyw sylwadau i awgrymu fod bwriad ganddo i niweidio neb arall.
- 4.0.11 Yng nghanol mis Gorffennaf 2017 mynychodd Tina yr apwyntiad GP gyda Shaun sy'n disgrifio nad ydi o'n teimlo'n paranoid mwyach fod Tina yn cael affêr ac mae'n sylweddoli ei fod wedi colli rheolaeth yr adeg hynny ond ei fod yn teimlo'n llawer gwell. Mae'r GP yn ddigon pryderus y gwnaiff ddigon eto i wneud cyfeiriad i'r CMHT am Straen Aciwt. Ni dderbyniwyd y cyfeiriad hwn oherwydd y teimlwyd nad oedd Shaun yn cyrraedd y trothwy i dderbyn ymyrraeth CMHT bryd hynny.
- 4.0.12 Edrychodd y Panel ar ran y Feddygfa a'r cyswllt gyda Shaun a chasglu fod eu camau gweithredu yn gyson â lefel y gwasanaeth y gellid ei ddisgwyl. Ni ddarganfu'r Panel unrhyw achos arwyddocaol lle'r oedd y Feddygfa wedi gwyro oddi wrth bolisi neu broses ond fe wnaeth nodi rhai pwyntiau dysgu sy'n cael eu trafod nes ymlaen yn yr adroddiad. Cadarnhaodd gwybodaeth a ddarparwyd gan Gyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol Gofal Sylfaenol fod y Feddygfa wedi cydymffurfio ag arweiniad iechyd cyfredol ynghylch materion paranoia. (Arweiniad meddygol NICE – *Psychosis and schizophrenia in adults: prevention and management Clinical guideline [CG178]* Cyhoeddwyd: 12 Chwefror 2014.)
- 4.0.13 Cysylltwyd â chyflogwr Shaun (prif gwmni telegyfathrebu) ond bu iddynt wrthod bod yn rhan o'r broses DHR. Roedd y Panel wedi gobeithio medru sefydlu a oedd cofnodion salwch Shaun wedi cael eu heffeithio gan ei ddefnydd o alcohol a pha un a oedd gan y cyflogwr unrhyw bryderon neu wybodaeth ynghylch defnydd alcohol Shaun. Gobeithid y byddai'r cyflogwr wedi medru dangos a oedd yna unrhyw systemau cefnogaeth mewn lle ar gyfer gweithwyr sy'n cael eu heffeithio gan y defnydd o alcohol.

5.0 DADANSODDIAD

5.1 NI CHAFODD YMDDYGIAD SHAUN EI ADNABOD FEL CAM-DRIN DOMESTIG GAN ASIANTAETHAU NA'R TEULU CYN 2016

5.1.1 Yn yr achos hwn, roedd sawl arwydd clir fod y berthynas yn rheoli, camdriniol a threisgar ers rhai blynyddoedd drwy gydol plentyndod eu plant. Roedd y teulu wedi cuddio'r cam-drin domestig ac roedd ffrind a chydweithwyr Shaun yn credu eu bod yn deulu normal. Felly, yr unig dystion i'r ymddygiad camdriniol a threisgar hwn oedd eu plant. Ceir tystiolaeth sylweddol bod plant yn normaleiddio'r ymddygiadau hyn fel mecanwaith dygymod wrth dyfu i fyny yn yr amgylchedd hwn.² Nid yw hyn yn anarferol a bydd asiantaethau fel Cymorth i Ferched yn gallu darparu digon o dystiolaeth bod cam-drin domestig yn guddiedig i'r byd y tu allan mewn sawl achos dioddefwyr gyda phlant yn rhan o'r gyfrinach. Yn ogystal â'r ymddygiad wedi'i normaleiddio, mae'n debygol na chafodd ei normaleiddio yn unig, ond bydd plant sy'n byw mewn amgylchedd o'r fath yn ofni dweud wrth neb ac mae plant yn aml yn cael eu tynnu bob ffordd ac yn deyrngar i'r ddau riant. I raddau helaeth, mae cam-drin domestig yn drosedd guddiedig, yn digwydd yn y cartref yn bennaf. Yn aml, nid yw merched yn datgelu nac yn adrodd am gam-drin domestig wrth yr heddlu (HMIC, 2014), a gall cam-drin domestig gael ei dan-adrodd mewn arolygon, yn enwedig yn ystod cyfweiliadau wyneb yn wyneb.³

5.1.2 Mae gan y brawd a'r chwaer atgofion o'u plentyndod yn ymwneud â thrais a chamdriniaeth sylweddol tuag at eu mam. Er bod y ddau'n cofio'r defnydd o drais ar y ddwy ochr, mae'r syniad fod Shaun yn dyrnu, cicio a thynnu gwallt Tina (ac i'r llawr) yn rheolaidd, yn adnabod patrwm cyson o ymddygiad camdriniol corfforol. Mae'n werth ystyried yr hyn a ddywed wrthym am dad oedd yn barod i ymrwymo i'r ymddygiad hwnnw o flaen ei blant ei hun a beth allai fod wedi digwydd pan oedd y plant ddim yn bresennol.

² Rhoades, KA (2008) Children's responses to interparental conflict: A meta-analysis of their associations with child adjustment. *Child Development*, 79(6) 3 How common is domestic abuse? - Cymorth i Ferched - <https://www.womensaid.org.uk> › information support ONS 2015

- 5.1.3 Petai'r plant wedi gallu rhannu gyda'u rhwydwaith, h.y. athrawon ac ati, bod y digwyddiadau hyn wedi digwydd gartref, ystyriodd y panel y byddai cyfle cynharach wedi bod yn bosib i asiantaethau gefnogi'r teulu hwn. Cydnabu'r panel bod mwy o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o gam-drin domestig ymhlith plant ac oedolion ar hyn o bryd o'i gymharu â phan oedd Louise a David yn blant.
- 5.1.4 Ystyriodd y panel ymhellach ei bod yn dra phosib fod y brawd a'r chwaer wedi tyfu i fyny mewn amgylchedd lle'r oedd gor-wyliadwraeth yn norm, oherwydd efallai eu bod yn disgwyl i'r ffræe nesaf ddechrau rhwng eu rhieni bob amser.
- 5.1.5 Er bod y brawd a'r chwaer yn cyfeirio at mam a dad yn bod yn dreisgar, oherwydd gwahaniaethau rhyw, mae'n annhebygol y gallai Tina, yn realistig, fod wedi ymosod ar Shaun gyda'r un grym h.y., ei dynnu gerfydd ei wallt i'r llawr fel y gwnaeth ef iddi hi. Mewn digwyddiadau o gam-drin a thrais domestig, mae tynnu gwallt a thrais tebyg i ddyrnu'r asennau a'r stumog yn gyffredin gan gyflawnwyr gwrywaidd yn erbyn merched ac, yn aml, nid ydynt yn arwain at anafiadau gweledol, felly maent yn llai tebygol o gael eu canfod gan ffrindiau neu gydweithwyr.
- Ystadegau ar Ddiodefwyr Gwrywaidd o Gam-drin Domestig. Mae gwahaniaethau pwysig rhwng trais gwrywaidd yn erbyn merched a thrais benywaidd yn erbyn dynion, sef y swm, y difrifoldeb a'r effaith. Mae merched yn profi cyfraddau uwch o erledigaeth dro ar ôl tro ac yn llawer mwy tebygol o gael eu brifo'n ddifrifol¹ neu eu lladd na diodefwyr gwrywaidd o gam-drin domestig.²
- 5.1.6 Wrth feddwl am blant sy'n canfod eu hunain yn y sefyllfa hon, yr her o hyd yw ystyried y ffordd orau o gefnogi'r plant a'r bobl ifanc sy'n tyfu i fyny mewn cartrefi lle mae cam-drin domestig yn gyffredin.
- 5.1.7 Gan fod plant yn treulio'r rhan fwyaf o'u plentyndod yn yr ysgol, mae'n werth ystyried beth a ellir ei roi yn ei le yn y lleoliad addysgol. Mae'n bwysig ystyried na fydd plant efallai yn ystyried eu hunain yn ddiodefwyr, fel David a Louise, a ddim yn meddwl fod angen datgelu wrth neb y tu allan i'r teulu.
- 5.1.8 Mae codi ymwybyddiaeth am gam-drin domestig eisoes yn gysylltiedig â sawl cwricwlwm ysgol wrth gyflwyno gwersi ABCh; fodd bynnag, mae gweithwyr proffesiynol angen ystyried efallai na fydd plentyn, sy'n ddiodefwyr cam-drin domestig, yn teimlo ei fod yn gallu datgelu, ac os yw'n dewis gwneud hynny, efallai na fydd gan yr ysgol y set sgiliau i ymateb.

¹ Walby & Towers, 2017

² Walby & Allen, 2004 (ONS, 2020A; ONS, 2020B)

- 5.1.9 Efallai bod angen cael ambell drafodaeth ddefnyddiol gydag addysg ac ystyried, oni bai ei fod yn digwydd eisoes, p'un a ddylid cyflogi arbenigwr sy'n cefnogi ysgolion. Mae arfer gorau yn golygu ystyried pryd a lle fyddai plentyn yn teimlo'n fwyaf diogel i ddatgelu, o ystyried y byddent yn dychwelyd gartref efallai ar ôl datgelu gwybodaeth sensitif a ddim yn gwybod pa effaith fydd hynny'n ei gael ar eu mam fel y targed tebygol am y bai.
- 5.1.10 Bydd un mewn saith (14.2%) o blant a phobl ifanc dan 18 oed wedi byw gyda thrais domestig ar ryw adeg yn eu plentynod. Efallai y byddent yn yr un ystafell neu mewn ystafell arall ac yn gallu clywed y gamdriniaeth.³
- 5.1.11 Mae'r ffaith fod Shaun wedi dal ati i honni fod Tina yn bod yn anffyddlon yn debygol o fod yn fwy arwyddol o'i ymddygiad ei hun, ac eto, mae'n gyffredin iawn mewn ymddygiad cam-drin domestig lle mae'r cyflawnwr yn barnu ei ddioddefwr benywaidd yn unol â'i ymddygiad ei hun, nid ymddygiad y dioddefwr.⁴
- 5.1.12 Roedd asiantaethau yn cynnig cefnogaeth ar gael ac yn cael eu hysbysebu ar yr adeg hon yng ngogledd Cymru ond naill ai fod y wybodaeth hon heb gyrraedd Tina neu ei bod yn teimlo nad oedd yn gallu gofyn am gyngor neu'n ofni gwneud hynny. Ym mis Mawrth 2016, gadawodd Tina i'w merch adrodd am yr ymosodiad wrth yr Heddlu a gwnaeth ddatganiad. Nid yw'r Panel yn gwybod pam ei bod wedi newid ei meddwl. Ni wnaeth Tina rannu ei phryderon na'i hofnau gyda'i ffrindiau sydd eto ddim yn anghyffredin i ddioddefwyr oherwydd eu bod yn ofni cywilydd, gwarth neu mwy o fygythiadau a dialedd gan y cyflawnwr. Eto, nid yw'n anghyffredin i ddioddefwyr cam-drin domestig newid eu meddyliau yn unol â'r ymddygiad newidiol a gyflawnir yn eu herbyn gan fod ymddygiadau pŵer a rheoli yn heriol seicolegol i'r dioddefwr. Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod Tina a Shaun wedi rhannu amseroedd da yn ogystal, sy'n ei wneud yn anodd i ddioddefwr wahanu'r ymddygiad oddi wrth y person.⁵
- 5.1.13 Yn 2002, dengys cofnodion y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol (CMHT) fod gweithwyr proffesiynol yn ymwybodol bod y berthynas rhwng Shaun a Tina wedi cael ei marcio gan 'reolaeth'. Ar yr adeg honno yn 2002, nid oedd Polisi Cam-drin Domestig gan y CMHT ac nid oedd gan weithwyr proffesiynol yr hyfforddiant gofynnol i adnabod a gweithredu ar gam-drin domestig, ac efallai na fyddent wedi gweld rheolaeth fel dangosydd Cam-drin Domestig. Mae cael canllawiau neu restrau gwirio yn gallu helpu gweithwyr proffesiynol i adnabod pryderon a gyflwynir dan iechyd meddwl er enghraifft. Gallai rhestr wirio syml gynnwys cwestiwn sy'n ystyried a yw'r materion yn ymwneud â

3 <https://www.womensaid.org.uk/information-support/what-is-domestic-abuse/impact-on-children-and-young-people>

4 <https://www.womensaid.org.uk/information-support/what-is-domestic-abuse/recognising-domestic-abuse/>

5 <https://www.womensaid.org.uk/information-support/what-is-domestic-abuse/recognising-domestic-abuse/>

pherthnasau ac a yw hynny'n codi pryderon a ellir eu blaenoriaethu yn rhywle arall fel testun pryder.

5.2 TORRI AMODAU MECHNÏAETH

5.2.1 Yn 2016 gafodd cam-drin domestig ei gofnodi fel digwyddiad heddlu am y tro cyntaf. O ganlyniad, nid oedd unrhyw wasanaeth ynghlwm â Tina na Shaun wedi adnabod cam-drin domestig fel pryder. Dengys ymchwil fod dioddefwr benywaidd o gam-drin domestig yn debygol o fod wedi dioddef ymosodiad corfforol o leiaf 35 gwaith cyn adrodd am ddiwyddiad yn ogystal ag unrhyw ymddygiad camdriniol arall. Oherwydd mai Louise wnaeth yr adroddiad ar ran ei mam, nid yw'n wybyddus faint o ymosodiadau corfforol yr oedd Tina wedi'u profi hyd at y pwynt hwn. Fe wnaeth Tina a Louise dynnu eu datganiadau yn ôl a phenderfynu peidio â bwrw ymlaen gyda'r achos. Mae'n debygol fod bygythiad Shaun o hunanladdiad yn ffactor a gyfrannodd at y penderfyniad hwnnw, er bod y Panel hefyd yn cydnabod fod Tina a Shaun wedi ymrwymo i aros gyda'i gilydd ar y pryd. Nid oedd gwasanaethau yn gwybod am y galwadau ffôn a wnaethpwyd gan Shaun i Tina, a hefyd i Louise, tra oedd ar y rheilffyrdd ym mis Mawrth 2016, tan fis Mehefin 2018 pan ddatgelodd Louise y wybodaeth i'r Awdur a'r Cadeirydd. Cysylltwyd â Tina gan Gorwel ynglyn â'i phenderfyniad i dynnu ei datganiad yn ôl, ond nid oedd Louise wedi siarad ag unrhyw asiantaeth.

5.2.2 Llwyddodd Shaun i berswadio Tina, ei ddioddefwr a'i ferch Louise i dynnu eu datganiadau yn ôl, a olygai ei fod yn torri amodau mechnïaeth. Wrth edrych yn ôl, nid oedd y darlun llawn ar gael i asiantaethau ar y pryd. Petai'r Ymgynghorydd Cam-drin Domestig Annibynnol (IDVA) yn gwybod am hanes Tina o gamdriniaeth ac ymosodiadau, efallai y byddent wedi gallu cynnig ymyrraeth fwy dwys. Mae IDVAs yn fwy tebygol o wybod mwy o ran y gwrthdaro a brofir gan ddioddefwr ar adeg mor allweddol cyn ymddangosiadau posib yn y llys.

5.3 YMDDYGIAD SY'N GORFODI A RHEOLI

5.3.1 Ym mis Medi 2012, cyhoeddodd y Llywodraeth arweiniad ar ymddygiad sy'n gorfodi a rheoli, ac yna yn 2015 daeth yn gyfraith yn rhinwedd Adran 76 Deddf Troseddu Difrifol 2015 – 'Ymddygiad sy'n Rheoli a Gorfodi mewn Perthynas Agos neu Deuluol'. Mae'r diffiniad traws-lywodraeth hwn o drais a cham-drin domestig yn amlinellu ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi fel a ganlyn:

- Mae ymddygiad sy'n rheoli yn amrediad o weithrediadau wedi'u cynllunio er mwyn gwneud i berson fod yn israddol ac/neu yn ddibynnol gan eu hynysu oddi wrth ffynonellau o gefnogaeth, gan ecsbloetio eu hadnoddau a'u gallu ar gyfer gwneud elw personol, gan eu hamddifadu o'r pethau

angenrheidiol ar gyfer annibyniaeth, gwrthsefyll a dihangfa ac yn rheoleiddio'u hymddygiad bob dydd.

- Mae ymddygiad sy'n gorfodi yn weithred neu batrwm o weithrediadau o ymosodiad, bygythiadau, codi cywilydd a chodi braw neu gam-drin arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu godi ofn ar eu dioddefwr.⁶

- 5.3.2 Mae ymddygiad sy'n gorfodi a rheoli yn amrediad o weithrediadau wedi'u cynllunio er mwyn gwneud i berson fod yn israddol ac/neu yn ddibynnol gan eu hynysu oddi wrth ffynonellau o gefnogaeth, gan ecsbloetio eu hadnoddau a'u gallu ar gyfer gwneud elw personol, gan eu hamddifadu o'r pethau angenrheidiol ar gyfer annibyniaeth, gwrthsefyll a dihangfa ac yn rheoleiddio'u hymddygiad bob dydd.
- 5.3.3⁷ Mewn astudiaeth o oroeswyr cam-drin domestig, adroddodd 95 allan o 100 eu bod wedi profi rheolaeth drwy orfodaeth. Mae data o'r Arolwg Trosedd i Gymru a Lloegr yn awgrymu mai merched ran amlaf o lawer yw dioddefwyr ymddygiad sy'n rheoli a gorfodi.
- 5.3.4 Darganfu data o'r arolwg trosedd fod merched yn llawer mwy tebygol na dynion o fod yn ddiodefwyr camdriniaeth ymddygiad sy'n gorfodi a rheoli sy'n cynnwys diraddiad parhaus a bygythiadau brawychus - dwy elfen allweddol o reolaeth drwy orfodaeth.⁸
- 5.3.5 Mewn adolygiad ar wahân gan Myhill, roedd rheolaeth drwy orfodaeth yn ymwneud yn fawr â rhyw, gyda merched ran amlaf o lawer yn ddiodefwyr. Roedd rheolaeth drwy orfodaeth yn gysylltiedig â ffurfiau o gamdriniaeth a oedd yn fwy aml a difrifol, mwy o anafiadau corfforol a meddyliol, mwy o amhariad ar fywydau diodefwyr o ran amser yn absennol o'r gwaith, a mwy o dueddiad i asiantaethau allanol fod ynghlwm â hwy.⁹
- 5.3.6 Er na wnaeth ffrindiau Tina a Shaun amau cam-drin domestig, roeddent yn ymwybodol bod 'rhywbeth' wedi digwydd yn y flwyddyn cyn llofruddiaeth Tina, o ddigwyddiad 2016 ymlaen. Roeddent yn credu fod eu perthynas yn dod i ben a bod hyn wedi cael effaith ar iechyd meddwl Shaun. Roedd ffrind Tina yn gwybod am ddigwyddiad 2016 ond ni rannwyd hynny gan Tina mewn unrhyw fanylder, dim ond y sylw 'things had got heated' a'u bod yn gwahanu. Roedd ffrindiau Shaun yn fwy ymwybodol bod problem sylweddol gyda'r berthynas

6

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/482528/Controlling_or_coercive_behaviour_-_statutory_guidance.pdf

7 Kelly, L; Sharp, N and Klein, R, Finding the Costs of Freedom How women and children rebuild their lives after domestic violence [London: Child and Woman Abuse Studies Unit, 2014], t.19

8 Myhill, A, Measuring coercive control: what can we learn from national population surveys? [Violence Against Women 21[3], 2015, tt. 355-375]

9 The police response to domestic violence: Risk, discretion, and the context of Andy Myhill PhD Thesis City, University of London Department of Sociology March 2018

yn torri i lawr; fodd bynnag, ni nodwyd hyn fel Cam-drin Domestig. Fe wnaeth ffrindiau a chydweithwyr hefyd siarad am y cwpl fel dau a oedd yn genfigennus o'r naill a'r llall.

- 5.3.7 Mae'n ingol na rannodd Tina ei sefyllfa gyda ffrindiau a chydweithwyr. Yr hyn a ddysgodd y panel am Tina oedd ei bod yn ddynes a oedd wedi aros gyda'i gŵr er gwaethaf yr adegau pan wnaethant ymladd. Nododd Louise nad oedd gan ei mam dymer gwyllt fel Shaun, David a Louise ac y byddai'n aros yn fwy tawel.
- 5.3.8 Dangosir bod ei ffrindiau a'i theulu yn hoff o Tina. Ychydig iawn o wybodaeth a rannwyd am hobiau a diddordebau Tina oherwydd nid oedd yn mynd allan rhyw lawer. Sonnir bod Tina yn mynd i'r Bingo ac i'r dafarn gyda ffrindiau. Pan oedd yn mynd allan, mae'r panel wedi darganfod ei bod yn cael ei chyhuddo'n barhaus o fod yn anffyddlon, ei chyhuddo o ddefnyddio ei ffôn wrth fod yn anffyddlon a bod Shaun yn monitro ei harian.
- 5.3.9 Ystyriodd y panel fod Tina yn debygol o ddewis aros adref oherwydd pryd bynnag y byddai'n mynd allan, roedd hi'n debygol i bethau fynd yn ffrae.
- 5.3.10 Ystyriodd y panel ymhellach mai dyma'r math o berygl y gallai dioddefwyr cam-drin domestig ei brofi'n rheolaidd, hynny yw, roedd mynd allan gyda ffrindiau yn arwain at ffraeon ac yn rhoi Tina mewn perygl o gamdriniaeth emosiynol a chorfforol pellach. Ymddengys bod Tina yn dewis cadw'r rhan hon o'i bywyd yn breifat. Felly, ychydig o gyfle oedd yna i ffrindiau i gynnig cefnogaeth, neu i Tina ofyn am gymorth neu gysur y tu allan i'r cartref gan nad oedd neb yn gwybod am raddau ymddygiad Shaun.
- 5.3.11 Arhosodd Tina gyda Shaun er gwaethaf cyfnodau o ymddygiad camdriniol, ond nid yw difrifoldeb nac amllder yr ymddygiad yn wybyddus nac wedi'i ddogfennu.
- 5.3.12 Yn natganiad cyfweliad DHR Louise, dywedodd fod ei mam a'i thad yn dadlau gyda geirwiredd cyfartal ar adegau. Wrth feddwl am y penderfyniad i dynnu'n ôl o broses y Llys, mae'n bosib empathyddio gyda'r pwysau emosiynol a deimlwyd gan Tina a Louise. Ni fyddai Tina eisiau i'r bygythiad o Shaun yn lladd ei hun ar ei chydwybod ac mae Louise wedi nodi erioed ei bod yn caru ei ddau riant, felly, efallai y teimlodd ei bod yn cael ei thynnu'n groes ei bod wedi rhoi ei thad yn y sefyllfa honno o flaen y Llys.
- 5.3.13 Ystyriodd y panel y gallai hyn gynrychioli cyfle a gollwyd gan weithwyr proffesiynol i gynnig unrhyw fath o gefnogaeth i Tina. Mae'n debygol y byddai Tina wedi bod yn meddwl am yr ymosodiad yn cael ei wneud yn gyhoeddus am y tro cyntaf. Rhaid cydnabod bod arbenigedd yr IDVA yn hanfodol yma i gael y cydbwysedd cywir rhwng parchu penderfyniad y

dioddefwr i beidio ag ymgysylltu gyda gwasanaethau, ond hefyd i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth gywir i allu gofyn am help pan fyddant yn teimlo'n barod i wneud hynny a defnyddio rhywbeth megis cefnogaeth Cymorth i Ferched a'r Freedom Programme, a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig.

- 5.3.14 Cydnabu'r Panel fod yr ymddygiad hwn sy'n gorfodi a rheoli wedi'i atgyfnerthu'n barhaus drwy'r trais corfforol a'r bygythiadau a ddioddefodd yn ystod ei phriodas. Ni ellid sefydlu graddau effaith hyn ar Tina ddim yn gwybod lle i ofyn am help neu'n teimlo nad oedd yn gallu gofyn am help. Gallai penderfyniad Tina i dynnu ei datganiad yn ôl hefyd fod wedi'i ddylanwadu gan flynyddoedd o ymddygiad oedd yn gorfodi a rheoli, ond eto, ni ellid sefydlu i ba raddau oedd hyn.
- 5.3.15 Er bod Tina a Louise wedi tynnu eu datganiadau yn ôl yn ddiweddarach, mae penderfyniad Louise i adrodd am ei thad wrth yr heddlu yn awgrymu lefel newydd o bryder am les ei mam ar yr achlysur hwn; o ystyried bod yr ymosodiad honedig wedi digwydd deuddydd cyn i Louise ddod i wybod amdano.
- 5.3.16 Mae'r ddau blentyn yn cofio dadleuon chwyrn rhwng eu rhieni a thrais corfforol o dro i dro, a barhaodd pan oeddynt yn eu harddegau ac yn oedolion.
- 5.3.17 Mae llawer wedi'i ysgrifennu am y rhesymau pam nad yw merched yn adrodd am gam-drin a thrais domestig. Dengys ymchwil fod dynes yn y sefyllfa hon angen ystyried beth allai'r canlyniadau fod, bygythiadau a mwy o gamdriniaeth a thrais o bosib.¹⁰ Mae'n bosib nad oedd Tina yn teimlo'n gryf na diogel i ofyn am help. Y ffactor orau i ragweld ymddygiad pobl yn y dyfodol yw eu hymddygiad yn y gorffennol, a byddai gan Tina doreth o brofiadau camdriniol i feddwl amdanynt wrth benderfynu gofyn neu beidio gofyn am help.
- 5.3.18 Mae yma rai enghreifftiau sy'n awgrymu fod Shaun wedi arddangos ymddygiad oedd yn gorfodi a rheoli tuag at Tina. Byddai'r enghreifftiau yn cynnwys: -
- Shaun yn ymosod yn gorfforol ar Tina drwy ei dyrnu yn y bol ac asennau, tynnu gwallt
 - Asesiad CMHT 2002 fod 'eu perthynas yn canolbwyntio ar reolaeth'
 - Cyhuddiadau mynych Shaun fod Tina yn anffyddlon sawl tro (gan nodi mai'r unig adroddiad o unrhyw achos o anffyddlondeb oedd un Shaun ar adeg pan oedd David yn blentyn ifanc)
 - Sylwadau a dadleuon Shaun am arian, etifeddiaeth, cynilion cudd honedig.

10 Myth 2: If it was that bad, she'd leave <https://www.womensaid.org.uk/information-support/what-isdomestic-abuse/myths/>

- Sylwadau negyddol Shaun tuag at Tina ar adegau pan oedd yn mynd allan i gymdeithasu gyda'i ffrindiau.
- Bygythiad Shaun i ladd ei hun oni bai bod Tina a Louise yn tynnu eu datganiadau yn ôl.
- Shaun yn gwirio ffôn Tina yn barhaus gan gredu ei bod yn ei ddefnyddio yn ei erbyn yn ei affêr honedig.

5.3.19 Mae ymddygiad sy'n gorfodi a rheoli yn effeithio ar y teulu cyfan. Nododd Callaghan yn 2015 "They are immediately involved and affected by coercive and controlling behaviour that does not simply target the adult victim but affects the entire family."¹¹ Fel enghreifftiau, mae rhaglenni Cymorth i Ferched a chyflawnwyr yn gyffredinol yn adnabod 'olwyn rheoli' ymddygiad camdriniol, tra mae'r Freedom Programme yn cynnig ffurf amgen ar berthynas i ferched, sy'n seiliedig ar gydraddoldeb yn unol â'r olwyn gydraddoldeb mewn rhaglenni cyflawnwyr.¹²

5.4 CAMDDEFNYDD SHAUN O ALCOHOL

5.4.1 Mae camddefnydd Shaun o alcohol yn nodwedd arwyddocaol yn yr Adolygiad hwn. Roedd Shaun yn yfed alcohol yn rheolaidd a bod graddau'r yfed hwnnw wedi arwain at o leiaf ddwy ymdrech i ddadwenwyno a mynychu Alcoholics Anonymous gyda'i raglen ymatal ac adfer 12 cam. Yn fuan ar fore'r llofruddiaeth, prynwyd alcohol gan Shaun.

5.4.2 Yn ôl Louise a David, roedd Shaun fel arfer yn yfed alcohol gyda'r nosau ac ar wyliau banc gan ei fod mewn cyflogaeth reolaidd. Nodwyd gan ei gyflogwr mewn datganiad i'r Heddlu fod Shaun yn arogleuo o alcohol ar adegau. Ystyriodd y Panel y gallai ei gamddefnydd o alcohol fod wedi cynyddu'r tebygolrwydd o Shaun yn pigo ffrae a dadlau'n gorfforol â Tina gan fod alcohol yn gweithredu fel 'gwrth-atalydd (disinhibitor)', a'i ganiatáu i fod yn fwy gwrthdrawiadol. Nododd Louise fod ymddygiad Shaun yn eithaf gwahanol pan nad oedd wedi yfed alcohol, h.y. yn fwy hamddenol yn gyffredinol a ddim yn dueddol o ddadlau a dadlau'n gorfforol. Byddai arbenigwyr ar gam-drin domestig yn herio'r syniad bod alcohol yn brif ffactor. Mae cam-drin domestig yn dibynnu ar fwriad y cyflawnwr i gadw rheolaeth dros ddiodefwr. Gyda'r wybodaeth a rannwyd gan Louise a David drwy eu profiadau plentyndod, mae'n debygol nad oedd alcohol yn bresennol bob amser yn ystod y gamdriniaeth ond yn debygol o fod yn ffactor waethybol ar adegau. Dengys

11 Callaghan J, et al. (2015) Beyond "witnessing": children's experiences of coercive control in domestic violence and abuse. *Journal of Interpersonal Violence*

12 <https://www.theduluthmodel.org> and <https://www.freedomprogramme.co.uk>

ymchwil nad yw alcohol yn gyfrifol am gam-drin domestig ond gall fod yn ffactor gyfrannol.¹³

- 5.4.3 Wrth feddwl am ymddygiad Shaun ar y rheilffordd, mae yna ychydig o arsylwadau i'w hystyried: Gellid dadlau nad oedd alcohol yn cymylu ei farn gan fod Shaun yn ei iawn bwyll i fod yn ddigon rhesymegol i ffonio a gofyn i Tina a Louise dynnu eu datganiadau yn ôl a rhoi'r gorau i'r erlyniad. Drwy gysylltu â Tina a Louise, rhoddodd Shaun ei hun mewn sefyllfa o dorri amodau ei fechnïaeth 'i beidio â chysylltu â Tina na Louise yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol am unrhyw reswm' ond ni chafodd ei gyhuddo o dorri amodau mechnïaeth na'i arestio. Petai Shaun wedi cael ei arestio, efallai y byddai gorchymyn llys pellach wedi cynyddu difrifoldeb yr amodau mechnïaeth i adlewyrchu ei ddifaterwch ynglŷn â'r rhai a osodwyd eisoes.
- 5.4.4 Mae llawer o dystiolaeth bod torri amodau mechnïaeth a gorchymynion atal yn nodweddiadol o gynyddu risg o anaf difrifol i ddiodefwyr cam-drin domestig gan fod y difaterwch ynglŷn â'r gorchymynion yn dangos penderfynoldeb i barhau gyda'r ymddygiad camdriniol er gwaethaf y ffaith bod cyfyngiadau yn eu lle.
- 5.4.5 Nid yw'r math o ymddygiad a ddangoswyd gan Shaun wrth fygwth lladd ei hun, gan felly roi pwysau emosiynol ar Tina a Louise, yn anghyffredin fel ffurf o ymddygiad sy'n rheoli. Yn y sefyllfa hon, ymddengys ei fod wedi cael yr effaith a ddymunwyd o newid meddyliau Tina a Louise a hwythau'n tynnu eu datganiadau yn ôl.

5.5 YR UNED IECHYD MEDDWL ACIWT YN PEIDIO Â RHANNU GWYBODAETH GYDA'R MEDDYG TEULU MAWRTH 2016

- 5.5.1 Ar ôl cael ei ddarganfod ar y trac rheilffordd ym mis Mawrth 2016, cafodd Shaun ei gadw dan adran 136 Deddf Iechyd Meddwl a'i hebrwng i'r Uned Iechyd Meddwl Acíwt yn yr ysbyty lleol. Am 21.40, cafodd Shaun ei asesu gan Dr 3 - Seiciatrydd Ymgynghorol - Locwm (BIPBC) ac Oedolyn D - Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy (Gwasanaethau Oedolion Gwynedd). Mae cofnod ysgrifenedig manwl i'w gael o'r asesiad sy'n casglu fod Shaun yn ddiogel i adael, gan nodi - 'Dychwelyd i'r Gwely a Brechwast - ac yna lwerddon'. Datgan canlyniad yr asesiad Adran 136 'Cafodd Shaun ei ryddhau, am nad oedd tystiolaeth o gyflwr iechyd meddwl ond 'ymateb aciwt i straen oherwydd ei fod wedi'i ddal gan yr heddlu ac yn gordddefnyddio alcohol'.
- 5.5.2 Cyfarfu'r Cadeirydd, Aelod o'r Panel a'r awdur gyda Rheolwr 1, Rheolwr Gwasanaethau Oedolion BIPBC sy'n gweithio yn yr UNED CMHT lle cafodd

13 Myth number 1 Alcohol and drugs make men more violent, <https://www.womensaid.org.uk/information/support/what-is-domestic-abuse/myths/>

Shaun ei asesu. Roedd Rheolwr 1 yn gallu adolygu'r wybodaeth oedd yn ymwneud ag asesiad Shaun yn 2016 a chynghori mai'r ymarfer cyffredin yw rhannu adroddiad yr asesiad gyda Meddyg Teulu'r claf a bod hyn wedi cael ei wneud wrth anfon copi at y Meddyg Teulu ar beiriant ffacs. Nododd Rheolwr 1 nad oedd unrhyw ffacs ar ffeil Shaun ac ar y sail fod y Meddyg Teulu wedi dweud nad oedd yn ymwybodol o'r asesiad, roedd yn ymddangos yn debygol na chafodd yr adroddiad ei rannu o gwbl.

- 5.5.3 Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Panel wedi sefydlu ei bod wedi bod yn ymarfer cyffredin i'r Uned Iechyd Meddwl Aciwt rannu adroddiadau asesiadau meddygol Meddyg Teulu'r claf. Mae'r Panel wedi ystyried canfyddiadau'r adolygiad hwn ac er nad oes modd datgan yn bendant, mae'n ymddangos yn debygol, yn yr achos hwn, na wnaeth yr Uned Iechyd Meddwl Aciwt rannu'r asesiad meddygol a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2016 gyda'r Meddyg Teulu.
- 5.5.4 Gofynnwyd i Feddyg Teulu Shaun a fyddai'r penderfyniadau neu'r cyfeiriadau wedi cael eu rheoli'n wahanol pe bai'r Meddyg Teulu wedi derbyn copi o adroddiad yr Uned Iechyd Meddwl Aciwt pan gafodd ei gynnal. Ymatebodd y Meddyg Teulu ei bod yn debygol y byddai'r wybodaeth wedi cael ei chynnwys yn y cyfeiriad yn 2017 i'r CMHT. Aeth y Meddyg Teulu yn ei flaen i ddatgan fod ei hasesiad hi o Shaun yn seiliedig ar y modd yr oedd yn ymddangos ar amser yr ymgynghoriad, gan ychwanegu'n ddiweddarach fod Shaun wedi gwella llawer a'i fod yn dangos fod ganddo syniad da o'r hyn a oedd wedi digwydd yn flaenorol.
- 5.5.5 Roedd Shaun wedi dweud wrth y Meddyg Teulu fod ei wraig yn anffyddlon ar sawl achlysur. Ystyriodd y Panel p'un a oedd y Meddyg Teulu wedi adnabod fod 'rheolaeth' yn ffactor arwyddocaol ac a allai fod wedi ymateb i'r wybodaeth hon yn wahanol.
- 5.5.6 Petai'r Meddyg Teulu wedi ymgynghori â sefydliad cam-drin domestig arbenigol megis 'Respect', sefydliad sy'n cefnogi dynion i newid eu hymddygiad, efallai y byddai Shaun wedi cael cynnig rhaglen wirfoddol, megis Choose to Change.
- 5.5.7 Mewn ymateb i'r uchod, mae'r Panel wedi argymhell fod yr Uned Iechyd Meddwl Aciwt yn gweithredu prosesau sy'n sicrhau y caiff Asesiadau Adran 136 eu rhannu gyda Meddyg Teulu'r claf. Mae'r Panel hefyd yn argymhell fod yr Uned Iechyd Meddwl Aciwt yn rhoi'r gorau i ddefnyddio peiriannau ffacs fel prif fodd o drosglwyddo gwybodaeth sensitif a chyfrinachol ac yn hytrach yn defnyddio systemau e-bost diogel. Gall systemau o'r fath osod cyfrinair ar wybodaeth gyfrinachol, sy'n gallu darparu llwybr archwilio clir ac sy'n gallu defnyddio opsiwn i gael anfoneb fel rhan o gadarnhau fod y sawl sydd i fod i dderbyn yr asesiad wedi ei dderbyn.

5.5.8 Efallai y byddai Un Pwynt Mynediad (SPOA) o gymorth ar gyfer cwestiynau, pryderon a meddyliau cyson os oes awgrym fod digwyddiad a asesir ganddynt yn ymwneud â cham-drin domestig. O fewn yr Adolygiad, mae'r Panel yn cydnabod yr ymddengys fod asiantaethau yn edrych ar hyn fel asiantaeth sengl a ddim yn ei drafod o fewn fframwaith aml-asiantaethol cymunedol sydd â darlun llawn o ddigwyddiadau.

5.6 CYSWLLT DILYNOL AR ÔL CAEL EI RYDDHAU YM MIS MAWRTH 2016

5.6.1 Yn ystod y cyfweiliad, dywedodd Rheolwr 1 fod y system wybodaeth wedi dangos cyfeiriad i Dr 4 yn ôl ym mis Mawrth 2016; fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth fod Dr 4 wedi gweld Shaun.

5.6.2 Cadarnhaodd Rheolwr 1 wedyn na ofynnwyd am unrhyw weithredu dilynol gan yr Uned Iechyd Meddwl Aciwt ar ôl asesiad diwedd Mawrth ac y dylid fod wedi cau'r achos ayr adeg honno.

5.6.3 Eglurodd Rheolwr 1 fod achos Shaun wedi cael ei ddynodi yn erbyn Dr 4 er dibenion gweinyddol am mai Dr 4 oedd yn gweithio yn yr ardal ddaearyddol ble'r oedd Shaun yn byw.

5.6.4 Ystyriodd y Panel y wybodaeth a gynhwysid yn yr IMR a sylwadau Rheolwr 1 ac roeddynt yn gytûn na fu Shaun erioed dan ofal Dr 4 ac nad oedd enw Dr 4 ond wedi ymddangos yn sgil proses weinyddol.

5.6.5 Mewn ymateb i'r uchod, mae'r Panel wedi argymhell fod Unedau Iechyd Meddwl Aciwt yn adolygu'r ffordd y defnyddir y gronfa ddata electronig o ran dyrannu claf i ymgynghorydd ac o ran sicrhau bod manylion cleifion yn cael eu cau'n iawn ar y system a hynny yn amserol.

5.7 CYFEIRIAD Y MEDDYG TEULU I'R CMHT YN 2017 A PHENDERFYNIAD Y CANLYNIAD

5.7.1 Ar adeg y cyfeiriad i'r CMHT (Gorffennaf 2017), roedd iechyd Shaun wedi gwella a'r prif reswm am y cyfeiriad oedd ofnau Shaun y gallai fynd yn ôl i ddioddef iechyd meddwl gwael yn y dyfodol.

5.7.2 Cynghorodd Rheolwr 1, Rheolwr Gwasanaethau Oedolion BIPBC, fod cyfeiriad Shaun wedi cael ei ystyried yn briodol gan y tîm SPOA ac mai'r penderfyniad cywir oedd peidio â derbyn Shaun fel claf.

- 5.7.3 Cadarnhaodd Rheolwr 1 fod trafodaethau'r SPOA yn seiliedig ar y wybodaeth a oedd yng nghyfeiriad y Meddyg Teulu ac na fyddai unrhyw gofnodion blaenorol wedi cael eu hadolygu fel rhan o'r asesiad. Nododd Rheolwr 1 hefyd hyd yn oed pe byddai'r adroddiad ar asesiad 2016 wedi bod ar gael yn ystod y cyfarfod SPOA, roedd adroddiad 2016 yn datgan nad oedd gan Shaun gyflwr meddyliol ar yr adeg honno. Efallai bod hyn wedi bod yn gyfle a gollwyd i Shaun gysylltu â grŵp cefnogi gwrywaidd neu raglen cam-drin domestig gwirfoddol. Wrth gwrs, byddai Shaun wedi gorfod derbyn fod ei ymddygiad yn annerbyniol, ond heb gynnig unrhyw ymyrraeth amgen, fe wnaeth y model asesu meddygol arwain at ddiffyg cyfleoedd cyfeirio. Efallai y byddai ymgynghori â grwpiau cam-drin domestig neu ddarpariaeth ar-lein wedi cynnig opsiynau amgen i wneud yn siŵr fod Shaun yn parhau i ymgysylltu â'r ddeialog ynghylch ei ymddygiad annerbyniol, a allai fod wedi cynnig amser iddo feddwl beth allai wneud yn wahanol.
- 5.7.4 Eglurodd Rheolwr 1 fod rhai cofnodion ar bapur ac roedd rhai cofnodion yn electronig. Goblygiadau hyn oedd nad oedd yn hawdd cael mynediad i wybodaeth llawn claf ar fyr-rybudd.
- 5.7.5 Mae cofnod IMR y Gwasanaethau Oedolion yng nghanol mis Gorffennaf 2017, dan Safonau/Ymarfer Ddisgwyliedig, yn nodi 'Gwnaed cyfeiriad y Meddyg Teulu i'r CMHT pan oedd y teimladau o baranoia wedi pasio felly ni fyddai wedi bod yn gymwys am fewnbwn / cefnogaeth gan y CMHT. Roedd yn briodol fod cais wedi'i wneud i'r Seiciatrydd Ymgynghorol ddilyn y mater.'
- 5.7.6 Mae IMR y Gwasanaethau Oedolion yn nodi 'Penderfyniad SPOA yw fod hwn yn gyfeiriad amhriodol a chafodd ei anfon at Dr 4, Seiciatrydd Ymgynghorol gan fod Shaun o dan ei ofal ef. Rhannwyd y penderfyniad gyda'r Meddyg Teulu.'
- 5.7.7 Yna, cafodd y Panel ei gynghori fod y frawddeg 'Roedd yn briodol fod cais wedi'i wneud i'r Seiciatrydd Ymgynghorol ddilyn y mater' wedi cael ei chynnwys yn ystod y cam IMR ac nad oedd wedi'i chynnwys yng nghofnodion meddygol Shaun. Ar y sail hon, roedd y Panel yn derbyn nad oedd unrhyw ofyn na bwriad i Shaun fod yn destun unrhyw 'waith dilynol gan y Seiciatrydd Ymgynghorol'.
- 5.7.8 Mae'r Panel wedi sefydlu NAD oedd Shaun dan ofal Dr 4, Seiciatrydd Ymgynghorol ac nad oedd angen na gofyn am asesiad dilynol.
- 5.7.9 Trafododd y Panel gyfeiriad y Meddyg Teulu a chytuno nad oedd Shaun angen unrhyw ymyrraeth iechyd Meddwl Aciwt o gofio fod ei ymddangosiad wedi gwella llawer ac mai'r hyn oedd wedi sbarduno'r cyfeiriad oedd ofn Shaun y byddai'n mynd yn ôl i gyflwr iechyd meddwl gwael yn y dyfodol. Ar y sail hon, cwestiynodd y Panel a oedd cyfeiriad i'r CMHT yn angenrheidiol.

- 5.7.10 Cyfarfu'r awdur gyda Chyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol Gofal Sylfaenol - Gorllewin ac eglurodd fod camau gweithredu'r Feddygfa yn gywir wrth wneud cyfeiriad i'r CMHT a fod camau'r Meddyg Teulu yn unol ag arweiniad Feddygol NICE - Psychosis and schizophrenia in adults: prevention and management Clinical guideline [CG178] Dyddiad cyhoeddi: 12 Chwefror 2014. Nodwyd hefyd bod y feddygfa (Gofal Sylfaenol) yn disgwyl y byddai Shaun yn derbyn rhyw lefel o fewnbwn gan y CMHT er gwaethaf y ffaith fod ei symptomau wedi lleihau. I'r gwrthwyneb - fel y dywedwyd eisoes, gwrthododd y CMHT y cyfeiriad ac maent yn parhau â'r farn y byddent yn gweithredu yn yr un modd pe bai'r un sefyllfa yn codi eto.
- 5.7.11 Mae'r ddwy farn broffesiynol wahanol wedi arwain at lunio argymhellion y dylai BIPBC adolygu eu protocolau presennol ar gyfeiriadau mewn ymgynghoriad â'r Meddygon Teulu.
- 5.7.12 Pa bynnag farn a dderbynnir: ymddengys nad yw'r gamdriniaeth ddomestig fel ffurf o ymddygiad sy'n rheoli wedi'i ystyried yn fanwl a sut allai fod wedi dylanwadu ar ymddangosiad Shaun a'i lesiant emosiynol. Wrth adlewyrchu ar y wybodaeth oedd ar gael i'r Meddyg Teulu ar unrhyw adeg, ymddengys bod cyfle wedi'i golli i gasglu'r holl wybodaeth oedd yn cynyddu, a oedd yn cael ei gadw mewn gwahanol lefydd.
- 5.7.13 Mae'n werth archwilio a oes gan feddygfeydd lleol unrhyw rwydwaith cefnogi iddynt allu cyfeirio, gofyn am gyngor arbenigol ac adnabod cysylltiadau posib i gam-drin a thrais domestig wrth i glaf rannu gofidiau perthynas a pharanoia. Mae'n amlwg drwyddi draw nad oedd Shaun wedi datgelu'r gamdriniaeth ei hun, dim ond ei ofid ei hun. Ymddengys hefyd na chodwyd unrhyw rybuddion rhwng apwyntiadau Tina a Shaun gyda'r Meddyg Teulu o ran paranoia Shaun yn cael ei gyfeirio at Tina a Tina yn arddangos hwyliau isel.

5.8 PRIODOLDEB CYFEIRIO AT PARABL

- 5.8.1 Cafodd Tina a Shaun eu cyngori yn unigol gan eu Meddyg Teulu i ystyried defnyddio'r gwasanaethau a gynigwyd gan PARABL.
- 5.8.2 Ar ddiwedd mis Mawrth 2017, bu i Tina gyfarfod â'r Meddyg Teulu a datgan y cofnodion 'trafodaeth ynghylch profedigaethau yn y teulu'r llynedd a hefyd tor-priodas, yn teimlo'n isel weithiau, hanes o iselder yn y teulu, wedi cyngori ynghylch gwasanaeth Parabl.'
- 5.8.3 Canlyniad y cyfarfod SPOA wrth ystyried y cyfeiriad Meddyg Teulu i Shaunoedd 'Adolygwyd y cyfeiriad uchod ond nodwyd ei fod yn gyfeiriad amhriodol er bod y CPN wedi nodi ystyried Parabl?'

- 5.8.4 Roedd sylwadau'r Meddygon Teulu yn awgrymu eu bod yn ansicr a oedd Parabl yn ddewis priodol i Shaun.
- 5.8.5 Trafododd y Panel pa mor briodol oedd cyfeirio Tina a Shaun i Parabl a chasglwyd na fyddai'r gwasanaethau a gynigir trwy Parabl yn berthnasol ar gyfer materion yn ymwneud â cham-drin domestig. Roedd angen i Shaun fynychu rhaglen bwrpasol oedd yn edrych ar newid ymddygiad.
- 5.8.6 Mae Parabl wedi cadarnhau nad oedd Tina na Shaun wedi cysylltu â'r gwasanaeth. Ni wnaeth y Panel unrhyw argymhellion o ran yr uchod.

5.9 GORWEL - COFNODI GWYBODAETH YN GWIR

- 5.9.1 Roedd IMR Gorwel yn nodi fod sgwrs ffôn sydyn wedi'i chynnal rhwng IDVA PVPU a Tina ar ddiwedd mis Mawrth 2016 er nad oedd cofnod o gynnwys y drafodaeth. Nododd Gorwel hyn a chadarnhau i'r Panel fod hyfforddiant bellach wedi'i gynnal a bod polisi rheoli achos wedi'i gyflwyno sy'n ymdrin â chofnodion achos, amllder cyswllt a phrosesau rheoli achos.
- 5.9.2 Mae hon yn wers arwyddocaol i bob asiantaeth wrth edrych ar gronoleg yn dilyn y fath lofruddiaeth drasig. Gallai barn a rennir am bryderon sylweddol asesu a chefnogi dioddefwr yn gynt o ystyried eu sefyllfa dan sylw. Mae cadw cofnodion yn hanfodol ar gyfer gwybodaeth a rennir am ddigwyddiadau a phryderon cynyddol wrth iddynt gael eu dogfennu, ond hefyd yr hyn a wneir gyda'r wybodaeth a gofnodir. Mae'n parhau i fod yn gofnod anactif os nad oes rhywun yn gweithredu ar wybodaeth bryderus.
- 5.9.3 Mae Gorwel hefyd wedi cynghori'r Panel ynghylch y gwasanaeth IDVA a ddarparwyd, maent eisoes wedi adnabod yr angen i sicrhau bod pob diweddariad yn cael ei osod ar y system Discovery - ac nid, fel yn yr achos hwn, yr RMS yn unig (RMS yn system gofnodi'r Heddlu yn unig) - mae'r argymhelliad mewnol hwn eisoes wedi cael ei weithredu gan Gorwel. Cynghorwyd y Panel hefyd fod Gorwel wedi diweddarau ei system reoli achos sydd yn awr yn benodol ar gyfer gwasanaethau IDVA a hefyd wedi cynyddu capasiti yn y tîm.
- 5.9.4 Mewn ymateb i'r uchod, derbyniodd y Panel ganfyddiadau Gorwel ac mae'n ategu'r argymhellion sef: -
- 5.9.5 Staff i dderbyn hyfforddiant ychwanegol o ran cadw nodiadau manwl a chywir ynghylch cyswllt â chleientiaid. Yr holl staff i fod yn ymwybodol o'r angen i ddiweddarau'r ddwy gronfa ddata electroneg, h.y. system Discovery a RMS.
- 5.9.6 Yn ychwanegol i'r hyfforddiant staff, ystyriodd y panel y byddai dysgu'n rheolaidd o DHRs, neu gyffelyb fel rhan o arfer gorau, yn gymorth i ddeall a

gwerthfawrogi natur gyfunedig y gwaith ac i werthfawrogi pa mor arwyddocaol yw cofnodi pan fydd yr holl asiantaethau yn dod â'u nodiadau ynghyd.

5.10 GORWEL - ADOLYGIAD O YMARFER SY'N YMWNEUD Â DIODDEFWYR SYDD DDIM YN CEFNOGI ERLYNIAD MWYACH

5.10.1 Ar ôl galwad ffôn gan Shaun ar y rheilffordd ym mis Mawrth 2016, penderfynodd Tina a Louise i beidio â chefnogi erlyniad. Cysylltodd yr IDVA o Gorwel â Tina ar unwaith ond ni wnaeth hynny yn ystod yr wythnosau cyfamserol cyn dyddiad y gwrandawriad yn Llys yr Ynadon. Mae Gorwel yn cydnabod y byddai'r arfer bresennol wedi creu cyswllt IDVA ychwanegol. Ers hynny, nododd Louise nad oedd ei mam yn llawn ddeall y broses Cyfiawnder Troseddol a gallai cyswllt pellach o bosib fod wedi rhoi amser iddi gynyddu ei hymwybyddiaeth o risg megis ymddygiad oedd yn gorfodi a rheoli a bygythiadau i'w galluogi i wneud penderfyniad deallus. Yn ystod y cyswllt IDVA olaf ar ddechrau mis Mai 2016 (pan gwblhawyd cwestiynau profforma gan yr IDVA), mae'r Panel yn ystyriol fod Tina wedi nodi bod ei gŵr yn ôl gartref ac yn teimlo bod rhaid iddi roi cyfle arall iddo gan eu bod wedi bod yn briod ers dros 30 mlynedd ond byddai'n bendant yn ffonio'r Heddlu os fyddai digwyddiad arall. Mae'r dychweliad hwn i'r berthynas gamdriniol yn ddealladwy a rhaid cydnabod ei fod yn anodd ei ddeall, i empathieiddio gydag ef a'i 'blismona' gan unrhyw asiantaeth gan fod dioddefwr eisiau credu na fydd yn digwydd eto.

5.11 DIFFYG YMWHYBYDDIAETH O GAM-DRIN A THRAIS DOMESTIG YNG NGHYD-DESTUN YMARFER MEDDYGOL

5.11.1 Fe wnaeth apwyntiadau a fynychodd Shaun gyda'r Meddyg Teulu rhwng mis Mai a Gorffennaf 2017 ddangos gallu'r Meddygon Teulu i ymgysylltu â Shaun. Datgelodd Shaun risgiau Cam-drin Domestig sylweddol i'r Meddyg Teulu megis gwahanu, alcohol, problemau iechyd meddwl a chenfigen. Disgrifiodd feddyliau ymwithiol a pharanoia a oedd yn cael trafferth eu rheoli. Nid oes unrhyw dystiolaeth fod ymddygiad a symptomau Shaun wedi'u gweld drwy'r lens Cam-drin Domestig na bod ystyriaeth wedi'i roi i ddiogelwch ei gyn-bartner.

5.11.2 Dywedodd Dr 1 ei bod wedi adolygu sut y mae'r feddygfa yn addysgu pobl am gam-drin domestig ac wedi cymryd camau i godi ymwybyddiaeth yn y feddygfa. Trafododd y Panel y posibilrwydd i Feddygon Teulu adnabod, a rhoi 'marcwyr' ar deuluoedd ac unigolion sydd mewn perygl. Roedd barn y Panel yn amrywio o ran priodoldeb ac ymarferoldeb Meddygon Teulu'n rhoi 'marcwyr' ar deuluoedd neu unigolion sydd mewn perygl a gallu defnyddio a rheoli gwybodaeth o'r fath yn ddiogel. Nododd y Panel fod dal gwybodaeth am ddiogelwch Cam-drin Domestig yn creu heriau o ran cydymffurfio â'r GDPR

a hefyd sicrhau nad yw unrhyw berson a gaiff ei adnabod fel rhywun sydd mewn perygl yn cael ei berswadio i beidio â cheisio ymyrraeth gan Feddyg Teulu. Rhaid nodi fod modelau eraill ar gyfer rheoli Cam-drin Domestig megis y model IRIS 14¹⁴ sy'n caniatáu gwneud cyfeiriad i wasanaethau arbenigol mewn dull cydsyniol â GDPR.

- 5.11.3 Byddai gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes cam-drin domestig yn rhoi diogelwch y defnyddiwr o flaen cyfrinachedd, yn yr un modd ag unrhyw bryder diogelu. Mae fforymau aml-asiantaethol wedi bod yn llwyddiannus ers rhai blynyddoedd yn sicrhau bod gan asiantaethau'r holl wybodaeth sy'n berthnasol i unrhyw risg i ddiodefwrwyr drwy rannu pryderon arwyddocaol, er enghraifft drwy MARACs. Ni chanfyddir gwybodaeth mewn fforymau aml-asiantaethol anweithredol neu os nad yw pryderon yn diwallu trothwyon.
- 5.11.4 Roedd y Panel yn cytuno y byddai angen i Feddygon Teulu roi ystyriaeth ymarferol i sut maent yn defnyddio ac yn rheoli data am yr unigolion sydd wedi'u hadnabod yn gysylltiedig â Cham-drin Domestig er nid oedd y Panel yn ei ystyried yn briodol i gyflwyno argymhelliad ynghylch y pwynt hwn.
- 5.11.5 Mewn ymateb i'r uchod, gwnaeth y Panel yr argymhellion a ganlyn - bod pob Meddygfa yn darparu gwybodaeth a hyfforddiant briodol i staff rheng flaen er mwyn gallu adnabod arwyddion o gam-drin domestig a gallu cyfeirio unigolion at wasanaeth cefnogi/cynghori priodol. Yn ogystal, dylai pob Meddygfa arddangos gwybodaeth cam-drin domestig briodol o fewn y feddygfa i godi ymwybyddiaeth a darparu gwybodaeth allweddol i gleifion.
- 5.11.6 Mae codi ymwybyddiaeth yn bwysig ond efallai bod cyngor arbenigol ar gael yn fwy o gymorth i Feddygfeydd prysur. Cydnabu'r Panel fod pob Meddygfa wedi cael mynediad, ac yn parhau â mynediad, i Dîm Diogelu BIPBC petaent yn dymuno cael cyngor neu gefnogaeth ynglŷn â materion cam-drin domestig posib. Mae'r Panel hefyd yn ymwybodol y gallai Meddygon Teulu gael mynediad i wybodaeth a'i ddefnyddio o'r Ap 'Bright Sky'. Mae Bright Sky yn ap a gwefan ddiogel, hawdd eu defnyddio sy'n darparu cefnogaeth a gwybodaeth ymarferol ar sut i ymateb i gam-drin domestig. Mae ar gyfer unrhyw un sy'n dioddef cam-drin domestig neu sy'n poeni am rywun arall. Mae Bright Sky yn helpu'r defnyddiwr i sylwi ar arwyddion o gamdriniaeth, i wybod sut i ymateb a helpu rhywun i ddarganfod ffordd ddiogel at gefnogaeth.
- 5.11.7 Teimlai'r Panel y byddai hefyd o fudd petai gan Feddygon Teulu fynediad i asiantaethau allanol eraill sydd â staff arbenigol wedi'u hyfforddi ar gael ar gyfer trafodaethau, er enghraifft Byw Heb Ofn neu Gymorth i Ferched. Mewn ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, bydd BIPBC yn adolygu arferion i sicrhau bod Meddygon Teulu yn gallu cyfeirio'n hawdd at asiantaethau arbenigol priodol.

14 <https://irisi.org/>

5.11.8 Trafododd y Panel y posibilrwydd i Feddygon Teulu ddefnyddio'r teclyn sgrinio HITS. Mae HITS yn declyn a graddfa sgrinio hawdd ei ddefnyddio sy'n golygu Hurt, Insult, Threaten and Scream. Mae gan y teclyn bedwar cwestiwn all meddygon eu rhoi i ferched drwy holiadur i asesu'r risg ar gyfer Trais Partner Agos (IPV). Gellir gofyn y cwestiynau ar lafar hefyd. Gofynnir cyfres o gwestiynau ynglŷn â pha mor aml y mae partner yr unigolyn yn eu brifo, sarhau, bygwth neu'n gweiddi arnynt. Mae gan unigolion bum ateb gwahanol y gallent eu dewis, sy'n cynnwys byth, anaml, weithiau, eithaf aml ac aml. Rhoddir gwerth pwynt i bob ateb cwestiwn, gydag 1 pwynt am byth, hyd at bump pwynt am aml. Gall sgôr ar y teclyn amrywio rhwng 4-20 o bwyntiau. Mae unrhyw sgôr sy'n fwy na 10 yn dangos i feddygon fod yr unigolyn yn dioddef o gamdriniaeth. Os atebir un o'r HITS gyda 'ydy', cynghorir y Panel y byddai hynny'n symbylu asesiad Rhestr Wirio Dangosydd Risg DASH, a chyfeiriad MARAC os yw'n berthnasol. Mae BIPBC yn bwriadu archwilio'r posibilrwydd i hyn gael ei ddefnyddio'n ehangach mewn meddygfeydd.

5.11.9 Ar adeg cyflwyno'r adroddiad hwn, mae BIPBC wedi cynghori bod rhaid i bob Meddyg Teulu yng ngogledd Cymru gymryd rhan mewn hyfforddiant diogelu yn yr un modd â phob gweithiwr Bwrdd Iechyd arall, yn unol â Pholisi a Gweithdrefn Hyfforddiant Statudol a Mandadol BIPBC. Mae Cam-drin Domestig yn un pwnc thema fyddai'n cael ei gyflwyno ar lefel safonol mewn sesiynau Lefel 2. Isafswm gofynion y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) i Feddygon Teulu yw cymryd rhan mewn diogelu Lefel 3 o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Mae trafodaethau a chyfarfodydd wedi cael eu cynnal mewn perthynas â pheilota IRIS yng ngogledd Cymru; mae hyn yn ddibynol ar gyllid y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Gan ddisgwyl i'r peilot gael ei werthuso a llwyddo, disgwylir y bydd hyn wedyn yn cael ei weithredu ar draws gweddill gogledd Cymru. Yn y cyfnod dros dro fel rhan o argymhellion yr adolygiad hwn, mae pob meddygfa (tua 100) ar draws gogledd Cymru wedi derbyn copi o Hyfforddiant Rhithiol Cam-drin Domestig ochr yn ochr ag asesiadau a llyfrau gwaith i gefnogi'r deunydd hyfforddi. Mae dyddiadau hyfforddiant wedi'u rhannu gyda phob meddygfa yn ychwanegol at dderbyn Bwletin Diogelu bob mis gan y Tîm Diogelu Corfforaethol, sy'n darparu dolen i'r wefan Diogelu a manylion cyswllt ar gyfer eu holl Bersonau Diogelu Dynodedig / Arbenigwr Diogelu.

DADANSODDIAD - YMATEB I'R CYLCH GORCHWYL

5.12 **DADANSODDI'R CYFATHREBU, Y GWEITHDREFNAU A'R TRAFODAETHAU A DDIGWYDDODD RHWNG ASIANTAETHAU, YN CYNNWYS YSTYRIED DRYSWCH POSIB GYDA'R DERMINOLEG.**

- 5.12.1 Mae'r dadansoddiad wedi amlygu'r problemau cyfathrebu/gweithdrefnol a gafwyd ynghylch yr Uned Iechyd Meddwl Aciwt yn peidio â rhannu gwybodaeth gyda'r Meddyg Teulu ym mis Mawrth 2016.
- 5.12.2 Mae'r dadansoddiad wedi amlygu'r problemau gweithdrefnol a gafwyd ynghylch defnydd yr Uned Iechyd Meddwl Aciwt o'r gronfa ddata electronig wrth ddyrannu claf i ymgynghorydd ac o ran sicrhau bod manylion cleifion yn cael eu cau'n iawn ar y system a hynny yn amserol.
- 5.12.3 Mae'r dadansoddiad wedi amlygu problemau cyfathrebu/gweithdrefnol ynghylch cyfeiriad y Meddyg Teulu i'r CMHT yn 2017 a phenderfyniad y canlyniad.
- 5.12.4 Mae'r dadansoddiad wedi amlygu problemau gweithdrefnol ynghylch priodoldeb cyfeirio Tina a Shaun i Parabl.
- 5.12.5 Mae'r dadansoddiad wedi amlygu problemau gweithdrefnol o ran y modd yr oedd Gorwel yn cofnodi gwybodaeth.

5.13 DADANSODDI'R CYDWEITHREDIAD RHWNG GWAHANOL ASIANTAETHAU A OEDD YN GYSYLLTIEDIG Â'R DIODDEFWR, Y CYFLAWNWR HONEDIG, A'R TEULU ESTYNEDIG

- 5.13.1 Roedd y Panel o'r farn fod asiantaethau a oedd yn gysylltiedig â Shaun a Tina wedi cydweithredu'n briodol a phroffesiynol. Er bod rhai meysydd i'w gwella wedi'u nodi o ran rhannu gwybodaeth, roedd hyn yn seiliedig ar brosesau gweinyddol ac nid methiant nac anfodlonrwydd i gydweithredu.
- 5.13.2 Mae'n bwysig creu diwylliant o chwilfrydedd ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n dod ar draws y pwnc o gam-drin domestig. Mae hon yn broblem barhaus i weithwyr proffesiynol sydd efallai yn tueddu i ganolbwyntio ar eu maes arbenigedd eu hunain. Mae rhannu gwybodaeth yn bwysig ac mae angen annog agwedd gymunedol at gam-drin domestig i ddiogelu mwy o ddiodefwr.

5.14 DADANSODDI'R CYFLE I ASIANTAETHAU ADNABOD AC ASESU'R RISG O GAM-DRIN DOMESTIG

- 5.14.1 Y feddygfa oedd un asiantaeth o'r fath oedd â'r potensial i adnabod ac asesu risg cam-drin domestig. Mae hyn eisoes wedi'i drafod uchod yn eitem 5.11.
- 5.14.2 Roedd Gorwel a Heddlu Gogledd Cymru hefyd yn rhan o'r gwaith i adnabod ac asesu risg cam-drin domestig. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, roedd y Panel yn fodlon bod camau gweithredu'r ddwy asiantaeth wedi bod yn gyson â lefel y gwasanaeth y gellid ei ddisgwyl. Ni ddarganfu'r Panel unrhyw

achos lle'r oedd yr heddlu wedi gwro oddi wrth bolisi neu broses ac nid oedd unrhyw bwyntiau dysgu wedi'u nodi.

5.15 DADANSODDI YMATEBION ASIANTAETHAU I UNRHYW ACHOS PAN GANFUWYD MATERION CAM-DRIN DOMESTIG.

5.15.1 Yr asiantaethau oedd yn ymwneud yn uniongyrchol ag ymateb i faterion cam-drin domestig oedd Heddlu Gogledd Cymru a Gorwel.

5.15.2 Ar y pryd, fe wnaeth Tina gael mynediad i wasanaeth Gorwel ac roedd pob IDVA wedi'u hachredu gan Safe Lives fel amod eu cyllid. Yn ogystal, mae gan Wynedd IDVA wedi'i leoli yn PVPU yr Heddlu oedd yn galluogi i wybodaeth a thrafodaethau yn ymwneud â dioddefwyr gael eu rhannu ar unwaith. Cydnabyddir hyn fel arfer orau. IDVA syn aml yw'r brif asiantaeth o ran rhannu gwybodaeth am ddiodesfwr.

5.15.3 Ystyriodd y Panel ymglymiad a rhyngweithiad Gorwel gyda Tina a chasglodd, ac eithrio diffyg cyswllt IDVA yn ystod cyfnod o bedair wythnos, fod y camau gweithredu yn gyson â lefel y gwasanaeth y gellid ei ddisgwyl. Ni ddarganfu'r Panel unrhyw achos arwyddocaol lle'r oeddent wedi gwro oddi wrth bolisi neu broses. Roedd yr unig bwyntiau dysgu yn ymwneud â recordio a storio gwybodaeth a thrafodir hyn nes ymlaen yn yr adroddiad. Nid yw cael diodesfwr cam-drin domestig sy'n gyndyn yn anghyffredin ar gyfer ffactorau a amlygwyd eisoes megis gwarth, cywilydd ac ofn dial. Mae nifer y cam-drin domestig yn genedlaethol yn arwain at her ynghylch sut mae IDVAs yn gweithio gyda phob diodesfwr unigol. Dylai canfod adnoddau a chyllid ar gyfer y fath waith fod yn flaenoriaeth fel bod diodesfwr fel Tina yn gallu cynnal cyswllt rheolaidd i gael mynediad i 'ddeialog' wahanol i'r un fyddant yn ei glywed bob dydd efallai gan eu cyflawnwr. Mae'n cymryd amser i feithrin ymddiriedaeth a chydbberthynas gyda gweithiwr ac, yn yr achos hwn, mae'n debygol bod yr IDVA angen mwy o amser i roi cyfle i Tina adlewyrchu a gwneud penderfyniadau gwahanol.

5.16 DADANSODDI MYNEDIAD SEFYDLIADAU AT ASIANTAETHAU CAM-DRIN DOMESTIG ARBENIGOL

5.16.1 Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) (Cymru) 2015 yn gofyn i bartneriaid datganoledig yng Nghymru (awdurdodau lleol, byrddau iechyd a gwasanaethau tân ac achub), sy'n gweithio gyda phartneriaid heb eu datganoli, megis yr heddlu, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau (OPCC) a sefydliadau trydydd parti, i ddatblygu Bwrdd VAWDASV i baratoi asesiad angen a strategaeth i ymdrin â VAWDASV.

5.16.2 Yng ngogledd Cymru, datblygwyd hyn ar sail ranbarthol yn hytrach nag ar sail awdurdod lleol unigol. Mae trefniadau comisiynu ar y cyd yn eu lle, ac mae gwasanaethau arbenigol ar gyfer CD a thrais rhywiol yn cael eu comisiynu ar y cyd, yn defnyddio nifer o wahanol lwybrau ariannu i sicrhau bod gwasanaethau ar gael ar draws y rhanbarth, gyda'r cwbl o ansawdd a gallu cymaradwy i weithio ar draws ffiniau'r sir. Mae'r gwaith asesu angen yn adnabod bylchau mewn darpariaeth ac yn gweithio i ddatblygu gwasanaethau lle bo'r angen ac os yw cyllid yn caniatáu. Mae hyn yn cynnwys datblygu rhaglen cyflawnwyr gwirfoddol ac wedi'u mandadu gan y llys.

5.16.3 Mae'r holl bartneriaid yn rhan o'r rhwydwaith hwn, maent oll yn cymryd rhan yn y broses MARAC, yn cyd-fynd â gweithlu PVPU'r Heddlu ac yn deall y prosesau cyfeirio.

5.17 DADANSODDI'R HYFFORDDIANT SYDD AR GAEL I'R ASiantAETHAU SYDD YNGHLWM Â MATERION CAM-DRIN DOMESTIG

5.17 Yn ychwanegol at yr hyfforddiant penodol ac unigol y mae pob sefydliad sector cyhoeddus yn ei ymgymryd fel rhan o ddatblygiad staff cyffredinol, mae Deddf Cymru yn gofyn i bob sefydliad gwasanaeth cyhoeddus (datganoledig), a sefydliadau arbenigol trydydd sector ymgymryd â hyfforddiant yn unol â gofynion y Ddeddf. Gelwir hyn yn Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol Cymru ac mae'n cynnwys codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant/ymyraethau ar draws y sectorau. Mae hyn yn cael ei gyflwyno ar draws Cymru. Yn y pen draw, bydd pob gweithiwr yn y sector cyhoeddus wedi derbyn hyfforddiant ar lefel briodol. Ceir chwe lefel yn y fframwaith. Mae'r agwedd a ystyriwyd yn yr adolygiad hwn o ran hyfforddiant yn berthnasol â meddygon teulu ac ymdrinnir ag ef yn adrannau perthnasol yr adroddiad.

5.18 YSTYRIED A ELLIR GWNEUD MWY YN YR ARDAL LEOL I GODI YMWYBYDDIAETH O'R GWASANAETHAU SYDD AR GAEL I DDIODDEFWYR CAM-DRIN DOMESTIG

5.18.1 Mae pob partner perthnasol yng ngogledd Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo Llinell Gymorth Am Ddim Llywodraeth Cymru, sef Byw Heb Ofn, yn ogystal ag ymgyrchoedd cysylltiedig ar sail gyson a pharhaus. Mae sefydliadau unigol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o gam-drin domestig yn aml a rheolaidd mewn ffordd gyfunol a chydweithredol.

5.18.2 Fel y nodir uchod, amlygodd yr adolygiad hwn yr angen i bob Meddygfa ddarparu gwybodaeth a hyfforddiant briodol i staff rheng flaen er mwyn gallu adnabod arwyddion o gam-drin domestig a gallu cyfeirio unigolion i wasanaeth cefnogi/cynghori priodol. Yn ogystal, dylai pob Meddygfa arddangos gwybodaeth cam-drin domestig briodol o fewn y feddygfa i godi ymwybyddiaeth a darparu gwybodaeth allweddol i gleifion.

- 5.18.3 Mae'r Panel yn ystyriol o gymhlethdod cam-drin domestig ac yn cydnabod y gallai casglu enghreifftiau o arfer dda o ardaloedd eraill gefnogi mentrau cymunedol lleol i wella ymarfer a gwybodaeth.
- 5.18.4 Un adnodd o'r fath yw Respect UK, a Respect Phoneline UK - sefydliad cam-drin domestig sy'n canolbwyntio ar weithio gyda chyflawnwyr gwrywaidd a gallent gynnig cefnogaeth a chynghor.

6.0 CASGLIADAU

- 6.0.1 Yn y deng mlynedd ar hugain y bu Tina a Shaun yn byw yng ngogledd Cymru, ychydig iawn o gyswllt fu gyda'r asiantaethau sy'n rhan o'r broses DHR hon. Roeddynt, yn ôl David a Louise, yn deulu agos oedd yn byw bywydau preifat ac yn cynnal cyflogaeth reolaidd. Dim ond yn y ddwy flynedd yn arwain at lofruddiaeth Tina fuodd y naill barti mewn unrhyw gyswllt nodedig gyda'r asiantaethau.
- 6.0.2 Roedd yr unig gyswllt gafodd Tina gyda Gofal Cymdeithasol Oedolion, Cyngor Gwynedd wedi bod yn rhinwedd ei swydd mewn cartref preswyl a oedd yn eiddo i'r Cyngor. Roedd ei chyswllt gyda'r Meddyg Teulu Lleol o natur gyfyngedig, gyda'r IMR yn dangos mai prin iawn yr oedd yn ymweld â'r Feddygfa.
- 6.0.3 Roedd cyswllt Tina gyda HGC yn fyr ac mae'r adroddiad yn cydnabod bod eu camau gweithredu wedi bod yn gyson â lefel y gwasanaeth y gellid ei ddisgwyl.
- 6.0.4 Byddai profiad Tina gyda Gorwel wedi gallu bod yn well; roedd gwersi i'w dysgu o ran cofnodi a chadw gwybodaeth a phwysigrwydd ymgysylltu â dioddefwyr sy'n penderfynu tynnu'n ôl o'r broses Gyfiawnder Troseddol i sicrhau eu bod yn gwneud penderfyniad deallus ar sail dealltwriaeth o risg.
- 6.0.5 Ychydig iawn o gyswllt gafodd Tina gyda'r asiantaethau a gyflawnodd eu dyletswyddau, ar y cyfan, yn gywir.
- 6.0.6 Cyn lofruddiaeth Tina, roedd yr unig gyswllt gafodd Shaun gyda HGC a BTP yn ymwneud ag o'n cael ei arestio a'i gadw yn y ddalfa yn dilyn digwyddiad cam-drin domestig ym mis Mawrth 2016, unwaith eto, pan fu i'r ddwy asiantaeth gyflawni eu dyletswyddau'n gywir.

- 6.0.7 Roedd rhan helaeth o gyswllt Shaun gyda'r asiantaethau yn ymwneud â BIPBC a Gofal Cymdeithasol Oedolion, Cyngor Gwynedd - un ai am ei fod yn ymweld â'r Meddyg Teulu neu i gael ei asesu, neu ei gyfeirio i'r Uned CMHT. Yn sgil ei gyswllt â'r asiantaethau hyn y cyfyd y mwyafrif o'r argymhellion.
- 6.0.8 Casglodd y panel fod gwersi i'w dysgu o ran y prosesau oedd yn rhan o rannu gwybodaeth rhwng yr Uned Iechyd Meddwl Aciwt a'r Meddyg Teulu a bod y protocolau ar gyfeiriadau CMHT angen cael eu hadolygu mewn ymgynghoriad â'r Meddygon Teulu. Mae gan asiantaethau ymarferion addas sydd wedi'u hen sefydlu ar gyfer anghenion eu hasiantaethau eu hunain, ond mae angen i asiantaethau fod yn awyddus i ddysgu a meddwl yn wahanol a hybu rhannu pryderon fel rhan o'r broses cau achosion.
- 6.0.9 Cesglir hefyd y gellir gwneud gwelliannau o ran sut mae'r Uned Iechyd Meddwl Aciwt yn defnyddio'r gronfa ddata electroneg wth reoli gwybodaeth am gleifion.
- 6.0.10 Casglodd y Panel hefyd fod yna welliannau y gellir eu gwneud yn y modd y mae Gorwel yn cofnodi a chadw gwybodaeth ac ymgysylltu â dioddefwyr sydd wedi tynnu datganiadau yn ôl.
- 6.0.11 Mae'r digwyddiadau a ddaw i'r amlwg yn yr adolygiad hwn yn atgyfnerthu pwysigrwydd addysgu pobl am gam-drin domestig a chodi ymwybyddiaeth o'r dangosyddion allweddol cysylltiedig. Casglodd y Panel y gall Meddygfeydd yng Nghymru helpu i godi ymwybyddiaeth wrth sicrhau bod staff yn derbyn gwybodaeth ddigonol am gam-drin domestig a risg ac yn cymryd camau i godi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig ymysg cleifion.

7.0 GWERSI I'W DYSGU

GWERS 1

- 7.1.1 Roedd cyfnod dwysaf Shaun o Asesiadau Meddygol yn ystod y cyfnod oedd yn arwain at drywanu Tina yn angheuol, h.y. Mai 2017 hyd at Orffennaf 2017. Gwelodd Shaun y Meddyg Teulu 7 gwaith yn ystod y cyfnod hwn. Nid oedd y ddau Feddyg Teulu wnaeth gynnal yr asesiadau yn ymwybodol fod Shaun, tua blwyddyn ynghynt wedi: -
- Cael ei arestio am Ymosod yn Gyffredinol ar Tina
 - Ei ryddhau ar Fechniaeth i ymddangos yn y llys
 - Wedi cael ei ail arestio am dresmasu ar y rheilffordd dan amheuaeth o geisio lladd ei hun

- Wedi cael ei dderbyn i Uned CMHT yr Ysbyty lle cafodd ei asesu a'i ryddhau

- 7.1.2 Gallai'r holl wybodaeth hon fod ar gael i'r Meddyg Teulu pe bai'r Ysbyty wedi rhannu Asesiad yr Ymgynghorydd yn 2016 yn gywir. Dengys ymchwil mai dwy o'r adegau mwyaf peryglus i ddiodefwrwr cam-drin domestig yw pan fydd perthynas yn dod i ben neu os yw'r diodefwrwr yn feichiog. Cofnodir hyn yn helaeth mewn ymchwil a data cenedlaethol.
- 7.1.3 Fe wnaeth y Panel gydnabod mawredd y raddfa o ddata cleifion y mae Byrddau Iechyd yng Nghymru yn ei dal yn ysgrifenedig ac mewn ffurf electroneg a chymhlethdod ceisio cadw, cynnal a rhannu gwybodaeth cleifion yn gywir gyda budd-ddeiliaid allweddol.
- 7.1.4 Yn yr achos hwn, teimlodd y Panel y byddai'r Meddygon Teulu wedi elwa o gael gwybod ymlaen llaw am Asesiad Iechyd Meddwl Shaun ym mis Mawrth 2016 yn ystod yr amser yr oeddynt yn ceisio ymdrin â phroblemau cysgu, Paranoia a Gor-bryder Shaun, a deall o ble ddaeth y paranoia, h.y. dim ymddiriedaeth yn ei berthynas ac o ble ddeilliodd hynny. Efallai y byddai wedi bod tu allan i gylch gorchwyl y Meddygon Teulu ond, wrth edrych yn ôl, gellir ystyried beth allai fod wedi bod o gymorth yn ystod y 7 ymweliad hynny â'r Meddyg Teulu.
- 7.1.5 Roedd y Panel yn derbyn fod yr uned Ysbyty CMHT dan sylw yn rhannu asesiadau'n rheolaidd gyda Meddygon Teulu ond ar yr un pryn codwyd cwestiynau ynghylch pa mor briodol oedd defnyddio technoleg peiriant ffacs fel modd o rannu gwybodaeth o'r fath am gleifion. Mae'n bosib tybio y gallai gweithwyr proffesiynol godi'r ffôn os ydynt yn bryderus - gollwng yr achos drwy rannu pryderon a holi gweithwyr proffesiynol eraill fel rhan o strategaeth ymadael wrth weithio gydag unigolyn.
- 7.1.6 Nid oedd y panel yn gallu dyfalu p'un a fyddai'r Feddygfa wedi gallu darparu gwasanaethau/ymyraethau cefnogaeth barhaus pe bai wedi derbyn copi o asesiad yr Ymgynghorydd CMHT ym mis Mawrth 2016. Byddai'r CMHT a'r Feddygfa wedi elwa o wasanaeth arbenigol (e.e. Cymorth i Ferched) i wirio pryderon ac opsiynau o ymyraethau oedd ar gael petaent wedi sylwi ar bryderon.

GWERS 2

- 7.1.7 Mae'r cofnodion a gadwodd y CMHT yn awgrymu fod achos Shaun wedi cael ei adael ar agor ar ôl ei asesiad ym mis Mawrth 2016 ac roedd i fod i gael ei gyfeirio at yr Ymgynghorydd, Dr 4. Fodd bynnag, darganfu'r adolygiad y dylai achos Shaun fod wedi cael ei gau'n ffurfiol ar yr adeg honno ac ni fu unrhyw fwriad erioed i'w gyfeirio at Dr 4.

- 7.1.8 Nid oes unrhyw gofnodion i awgrymu fod unrhyw gamau dilynol wedi digwydd gyda Shaun yn dilyn yr asesiad CMHT ym mis Mawrth 2016.
- 7.1.9 Fel y nodwyd eisoes, nid oedd y Meddygon Teulu yn ymwybodol o Asesiad CMHT Shaun.
- 7.1.10 Mewn ymateb i'r uchod, mae'r Panel wedi argymhell fod Unedau Iechyd Meddwl Aciwt yn adolygu'r ffordd y defnyddir y gronfa ddata electronig o ran dyrannu claf i ymgynghorydd ac o ran sicrhau bod manylion cleifion yn cael eu cau'n iawn ar y system a hynny yn amserol.

GWERS 3

- 7.1.11 Codwyd themâu o adolygu cyswllt Shaun gyda'r Feddygfa o ran gwahanol farn ynghylch pryd fyddai cyfeiriad i CMHT yn cael ei ystyried yn briodol. Y prif fater oedd fod y Feddygfa wedi gwneud cyfeiriad i'r CMHT ar ran Shaun yng nghanol mis Gorffennaf 2017 ar adeg yr oedd Shaun yn dangos arwyddion fod ei iechyd yn gwella, er hynny roedd y Meddyg Teulu yn dal i ystyried bod hynny'n unol â'r Canllawiau Cenedlaethol. Ar y sail hon, roedd elfen o ragdybiaeth y byddai'r CMHT yn derbyn y cyfeiriad. Fodd bynnag, nid oedd y cyfeiriad yn briodol ym marn y tîm SPOA yn CMHT ac yn hytrach na derbyn Shaun fel claf, argymhellwyd y dylid cyfeirio Shaun at Parabl. Fodd bynnag, nid oedd yr holl wybodaeth am gam-drin domestig gan y Meddyg Teulu pan wnaeth y cyfeiriad. Wrth feddwl am gyfleoedd a gollwyd, rhannu gwybodaeth yw'r edefyn parhaol drwy'r adolygiad hwn. Efallai y byddai'r Meddyg Teulu wedi ystyried cefnogaeth arbenigol arall petai wedi meddwl mwy am elfen ymddygiadol y ffordd oedd Shaun yn ymddangos.
- 7.1.12 Yn fwy neu lai, roedd y mater hwn yn dangos fod peth gwahaniaeth mewn barn broffesiynol rhwng y Meddyg Teulu a'r CMHT. Mae BIPBC wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i'r mater ac wedi cytuno i'r argymhellion a ganlyn:
- 7.1.13 Roedd y Panel yn gytûn fod angen i Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr adolygu ei brotocolau ynghylch cyfeiriadau CMHT mewn ymgynghoriad â'r Meddygon Teulu a'r CMHT i roi sylw i'r gwahaniaeth barn ymysg gweithwyr proffesiynol ac i adolygu pa wybodaeth sy'n cael ei hystyried ar adeg adolygu cyfeiriad SPOA.

GWERS 4

- 7.1.14 Mae nodiadau'r Meddyg Teulu ar ddiwedd mis Mawrth 2017 yn cofnodi fod trafodaethau wedi'u cynnal gyda Tina ynghylch cael mynediad i wasanaethau Parabl er mwyn helpu Tina gyda rhai o'r problemau yr oedd yn eu profi gyda'i pherthynas yn dod i ben, profedigaethau diweddar yn y teulu a'i hwyliau isel. Mae hwn yn ddigwyddiad arwyddocaol oherwydd nid yw'r Meddyg Teulu o

reidrwydd yn gallu cysylltu anghenion a phryderon Tina i rai Shaun oherwydd efallai eu bod wedi gweld dau Feddyg Teulu gwahanol ac nid oedd rhybudd ar y system i gyfeirio Meddyg Teulu i edrych ar nodiadau Shaun i weld beth oedd wedi bod yn mynd ymlaen. Efallai na fyddai Parabl wedi bod yn opsiwn a ffafir i Tina ar yr adeg hon. Byddai Cymorth i Ferched yn bendant wedi bod â mwy o brofiad o ymdrin â naws hwyliau a phryderon na Parabl, ond byddai Meddyg Teulu angen gallu gwybod bod hyn yn ymwneud ag ymddygiad camdriniol yn hytrach na chanolbwyntio ar hwyliau isel ac iselder.

- 7.1.15 Mae nodiadau'r Meddyg Teulu yng nghanol mis Mai 2017 yn cofnodi fod trafodaethau wedi'u cynnal gyda Shaun am RELATE a chwmsela. Yn gyffredinol, derbynnir gan arbenigwyr ym maes cam-drin domestig nad yw Relate na chwmsela yn ymyrraeth dda ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig am eu bod yn ofni rhoi'r dioddefwr drwy'r un peth eto wrth roi llwyfan i'r cyflawnwr drafod ei bryderon gyda dioddefwr 'yn cael ei ddal yn erbyn ei ewyllys' yn yr ystafell. Ffafir bob amser i gyfeirio at fudiadau megis Cymorth i Ferched a defnyddio eu harbenigedd i ddilyn dull sy'n canolbwyntio mwy ar y dioddefwr. Mae angen cefnogaeth ar gyflawnwyr hefyd, ond rhaid iddynt fod yn rhaglenni ar sail tystiolaeth i fynd i'r afael â'r ymddygiad a'r credoau ynghylch hawl gydag amser a lle ar wahân i'r cyflawnwr.
- 7.1.16 Mynychodd Shaun ei apwyntiad Meddyg Teulu olaf yng nghanol mis Gorffennaf 2017, gyda Tina. Ar yr adeg honno, roedd cyflwr iechyd Shaun wedi gwella'n fawr. Yn ystod yr asesiad, cytunodd y Meddyg Teulu i'w gyfeirio i'r CMHT oherwydd pryderon Shaun y gallai waethygu eto yn y dyfodol. Yn syml, gwnaeth y Meddyg Teulu gyfeiriad i'r CMHT ar adeg pan oedd cyflwr iechyd Shaun yn llawer gwell. Yn ddealladwy, ni wnaeth y CMHT dderbyn y cyfeiriad a chynghorwyd y dylid cyfeirio Shaun at Parabl ond byddai grŵp addas i ddynion a oedd wedi cyflawni'r ymddygiadau hyn wedi bod yn well.
- 7.1.17 Mae canfyddiadau'r adolygiad hwn yn cadarnhau na wnaeth Shaun na Tina ymgysylltu â therapïau siarad gyda RELATE na Parabl, a allai fod wedi bod yn rhywbeth da fel yr amlinellwyd uchod i osgoi rhoi'r dioddefwr drwy'r un peth eto.
- 7.1.18 Mae therapïau siarad a Relate yn sefydliadau ardderchog ond, yn yr achos hwn, cydnabu'r Panel y byddai Shaun wedi elwa o ymyrraeth arbenigol oedd yn canolbwyntio at newid ei ymddygiad camdriniol, yn hytrach nag ymyraethau oedd yn canolbwyntio ar broblemau perthynas, straen a gorbryder.
- 7.1.19 Noda'r Panel fod y cyfeiriad i CMHT ym mis Gorffennaf 2017 wedi arwain at CMHT yn argymhell y dylai Shaun gael mynediad i Parabl. Gallai Shaun fod wedi cael mynediad i Parabl yn gynharach ym mis Mai 2017 pan gafodd ei gynghori gyntaf gan y Meddyg Teulu am RELATE a gwasanaethau cwnsela.

- 7.1.20 Yn unol â'r argymhellion, bydd BIPBC yn adolygu'r trefniadau rhwng CMHT a'r meddygfeydd i sicrhau bod yna brosesau wedi'u diffinio'n eglur o ran pwy sy'n gyfrifol am gyflwyno cyngor am wasanaethau megis Parabl. Mae hyn yn cynnwys sut y caiff cleifion eu cyfeirio i Parabl, h.y. boed hyn trwy gyngor ar lafar neu ar sail fwy ffurfiol yn cynnwys cyfeiriad ysgrifenedig o ryw fath (un ai gan CMHT neu gan y Meddyg Teulu).

GWERS 5

- 7.1.21 Dywedodd y Meddygon Teulu ar ôl myfyrion eu bod wedi ceisio codi ymwybyddiaeth o Gam-drin Domestig yn y Feddygfa, ymysg staff a chleifion. Roeddynt yn ceisio cyflawni hyn trwy sicrhau bod staff yn derbyn digon o wybodaeth am Gam-drin Domestig ac wrth arddangos posteri/gwybodaeth briodol ar waliau'r Feddygfa. Mae angen cydnabod nad oedd Tina yn debygol o fod wedi datgelu ar yr adeg hon. Dylid rhannu unrhyw dystiolaeth storïol gan staff gyda'r Meddyg Teulu neu Reolwr y Feddygfa os yw'n bryderus, ond ni cheir unrhyw dystiolaeth i ddweud fod y derbynyddion er enghraifft wedi cael sgysiau gyda Shaun na Tina yn eu rhybuddio fod unrhyw beth o'i le.
- 7.1.22 Soniodd Louise am y digwyddiadau o Gam-drin Domestig dros gyfnod hir o fewn yr aelwyd wrth iddi dyfu i fyny a phan oedd yn oedolyn. Roedd y Panel o'r farn fod Cam-drin Domestig wedi cael ei normaleiddio ar yr aelwyd. Mae plant a gaiff eu magu mewn amgylchedd lle mae cam-drin domestig yn digwydd yn aml yn ddiodefwyr eu hunain a bydd, yn ddiaw, yn siapio eu ffordd o feddwl o ran peidio â dweud, ei gadw yn y cartref, ei guddio er mwyn amddiffyn mam a dad.
- 7.1.23 Er bod proffil ac ymwybyddiaeth o Gam-drin Domestig ymysg y cyhoedd wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r Panel yn cefnogi unrhyw fesurau y gellir eu gweithredu i godi ymwybyddiaeth ac addysgu mwy. Yn yr adolygiad hwn, nodir bod y Meddygon Teulu yn cydnabod yr angen i godi proffil Cam-drin Domestig o fewn y Feddygfa.

GWERS 6

- 7.1.24 Roedd IMR Gorwel yn nodi fod sgwrs ffôn sydyn wedi'i chynnal rhwng IDVA PVPU a Tina ar ddiwedd mis Mawrth 2016 er nad oedd cofnod o gynnwys y drafodaeth. Nododd Gorwel hyn a chadarnhau i'r Panel eu bod yn trafod cynnal hyfforddiant pellach i staff ar gadw nodiadau manwl a chywir o ran unrhyw gyswllt â chleientiaid.
- 7.1.25 Mae Gorwel hefyd wedi cynghori'r Panel ynghylch y gwasanaeth IDVA a ddarperir, maent eisoes wedi adnabod yr angen i sicrhau y caiff pob diweddariad ei osod ar y system Discovery - ac nid, fel yn yr achos hwn, yr

RMS yn unig - mae'r argymhelliad mewnol hwn eisoes wedi cael ei weithredu gan Gorwel.

7.1.26 Mewn ymateb i'r uchod, derbyniodd y panel ganfyddiadau Gorwel ac mae'n ategu'r argymhellion fod staff yn derbyn hyfforddiant ychwanegol o ran cadw nodiadau manwl a chywir ynghylch cyswllt â chleientiaid a bod staff yn ymwybodol o'r angen i ddiweddarau'r ddwy gronfa ddata electroneg, h.y. system Discovery a RMS. Nododd y Panel fod hyfforddiant bellach wedi'i gynnal a bod polisi rheoli achos wedi'i gyflwyno sy'n ymdrin â chofnodion achos, amllder cyswllt a phrosesau rheoli achos.

7.1.27 Ystyriodd y Panel ar ymglymiad a rhyngweithiad Gorwel gyda Tina a chasglodd, ac eithrio diffyg cyswllt IDVA yn ystod cyfnod o bedair wythnos a dderbyniwyd fel anomaledd gan y panel, fod y camau gweithredu yn gyson â lefel y gwasanaeth y gellid ei ddisgwyl. Ni ddarganfu'r Panel unrhyw achos arwyddocaol lle'r oeddent wedi gwro oddi wrth bolisi neu broses.

GWERS 7

7.1.28 Roedd y Panel yn siomedig fod y cyflogwr wedi gwrthod ymgysylltu â'r broses ac yn ystyried fod hyn yn codi goblygiadau ehangach am adolygiadau DHR yn methu â chael mynediad i wybodaeth berthnasol bosib ac felly'n methu gwneud argymhellion cysylltiedig perthnasol.

8.0 ARGYMHELLION

8.1.0 Uned Iechyd Meddwl Aciwt / CMHT

8.1.1 Codwyd nifer o themâu yn sgil adolygu cyswllt Shaun gyda'r Uned Iechyd Meddwl Aciwt/CMHT.

8.1. Mae'r themâu yn cynnwys: -

- Y tebygolrwydd na wnaeth yr Uned Iechyd Meddwl Aciwt rannu'r asesiad meddygol a gynhaliwyd ar ddiwedd mis Mawrth 2016 gyda'r Meddyg Teulu, er bod hyn yn ymarfer cyffredin.
- Priodoldeb defnyddio peiriant ffacs fel y prif fodd o drosglwyddo gwybodaeth am gleifion i'r Meddygon Teulu.
- Achos Shaun yn cael ei ddyrannu ar y gronfa ddata electronig i Dr 4 er gwaethaf y ffaith nad oedd bwriad gwneud unrhyw gyswllt pellach gyda Shaun.

- Achos Shaun yn aros 'ar agor' ar gronfa ddata electroneg CMHT pan ddylai gael ei gau'n ffurfiol.

8.1.3 Yn seiliedig ar yr uchod, mae'r Panel yn gwneud yr argymhellion a ganlyn: -

ARGYMHELLIAD 1

8.1.4 Bod yr Uned Iechyd Meddwl Aciwt yn gweithredu prosesau sy'n sicrhau y caiff asesiadau cleifion eu rhannu gyda Meddyg Teulu'r claf.

ARGYMHELLIAD 2

8.1.5 Bod yr Uned Iechyd Meddwl Aciwt yn rhoi'r gorau i ddefnyddio peiriannau ffacs fel prif fodd o drosglwyddo gwybodaeth sensitif a chyfrinachol ac yn hytrach yn defnyddio systemau e-bost diogel y gellir gosod cyfrinair ar wybodaeth gyfrinachol, sy'n gallu darparu llwybr archwilio clir ac sy'n gallu defnyddio opsiwn i gael anfoneb fel rhan o gadarnhau fod y sawl sydd i fod i dderbyn yr asesiad wedi ei dderbyn.

ARGYMHELLIAD 3

8.1.6 Bod y CMHT yn adolygu'r ffordd y defnyddir y gronfa ddata electronig o ran dyrannu claf i ymgynghorydd ac o ran sicrhau bod manylion cleifion yn cael eu cau'n iawn ar y system a hynny yn amserol.

8.2.0 Y Feddygfa

8.2.1 Codwyd themâu o adolygu cyswllt Shaun a Tina gyda'r Feddygfa o ran ymwybyddiaeth o Gam-drin Domestig.

8.2.2 Roedd y rhain yn cynnwys sicrhau bod staff yn derbyn digon o wybodaeth am gam-drin domestig, a chodi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig i gleifion.

8.2.3 Yn seiliedig ar yr uchod, mae'r Panel yn gwneud yr argymhellion a ganlyn: -

ARGYMHELLIAD 4

8.2.4 Pob Meddygfa i ddarparu gwybodaeth a hyfforddiant briodol i staff rheng flaen er mwyn gallu adnabod arwyddion o gam-drin domestig a gallu cyfeirio unigolion i wasanaeth cefnogi/cynghori priodol.

ARGYMHELLIAD 5

8.2.5 Pob Meddygfa i arddangos gwybodaeth cam-drin domestig briodol o fewn y feddygfa i godi ymwybyddiaeth a darparu gwybodaeth allweddol i gleifion.

8.3.0 Y CMHT a'r Feddygfa

8.3.1 Codwyd themâu o adolygu cyswllt Shaun gyda'r Feddygfa o ran gwahanol farn ynghylch pryd fyddai cyfeiriad i CMHT yn cael ei ystyried yn briodol. Y prif fater oedd fod y Feddygfa wedi gwneud cyfeiriad i'r CMHT ar ran Shaun yng nghanol mis Gorffennaf 2017 ar adeg yr oedd Shaun yn dangos arwyddion fod ei iechyd yn gwella, er hynny roedd y Meddyg Teulu yn dal i ystyried bod hynny'n unol â'r Canllawiau Cenedlaethol. Ar y sail hon, roedd elfen o ragdybiaeth y byddai'r CMHT yn derbyn y cyfeiriad. Fodd bynnag, nid oedd y cyfeiriad yn briodol ym marn y tîm SPOA yn CMHT ac yn hytrach na derbyn Shaun fel claf, argymhellwyd y dylid cyfeirio Shaun at Parabl.

8.3.2 Yn fwy neu lai, roedd y mater hwn yn dangos fod peth gwahaniaeth mewn barn broffesiynol rhwng y Meddyg Teulu a'r CMHT. Mae BIPBC wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i'r mater ac wedi cytuno i'r argymhellion a ganlyn: -

ARGYMHELLIAD 6

8.3.3 Wrth ystyried cyfeiriadau gan unrhyw Feddyg Teulu, dylai CMHT ystyried y wybodaeth sydd ganddynt am unigolyn a pha un ai yw'r meddygon teulu yn meddu ar y wybodaeth honno ai peidio.

ARGYMHELLIAD 7

8.3.4 Meddygon Teulu i ddeall pa fecanweithiau a ddefnyddir gan CMHT i asesu cyfeiriadau MT y maent yn eu derbyn o ran gwybodaeth o'r protocol ac adrannau allweddol.

ARGYMHELLIAD 8

8.3.5 Addasiadau i'r protocol yn y dyfodol i ymgynghori â meddygon teulu a'u cynnwys fel cynrychiolaeth fel aelod o'r gweithgor.

8.4.0 Gorwel - Cofnodi Gwybodaeth/Mewnbynnu Data yn Gywir

8.4.1 Roedd IMR Gorwel yn nodi fod sgwrs ffôn sydyn wedi'i chynnal rhwng IDVA PVPU a Tina ar ddiwedd mis Mawrth 2016 er nad oedd cofnod o gynnwys y drafodaeth. Nododd Gorwel hyn a chadarnhau i'r Panel eu bod yn trafod

cynnal hyfforddiant pellach i staff ar gadw nodiadau manwl a chywir o ran unrhyw gyswllt â chleientiaid.

8.4.2 Mae Gorwel hefyd wedi cyngori'r Panel ynghylch y gwasanaeth IDVA a ddarperir, maent eisoes wedi adnabod yr angen i sicrhau y caiff pob diweddariad ei osod ar y system Discovery - ac nid, fel yn yr achos hwn, yr RMS yn unig - mae'r argymhelliad mewnol hwn eisoes wedi cael ei weithredu gan Gorwel.

8.4.3 Mewn ymateb i'r uchod, derbyniodd y Panel ganfyddiadau Gorwel ac mae'n ategu'r argymhellion sef: -

ARGYMHELLIAD 9

8.4.4 Staff i dderbyn hyfforddiant ychwanegol o ran cadw nodiadau manwl a chywir ynghylch cyswllt â chleientiaid.

ARGYMHELLIAD 10

8.4.5 Pan fo'n briodol, staff i fod yn ymwybodol o'r angen i ddiweddarau'r ddwy gronfa ddata electroneg, h.y. system Discovery a RMS.

8.5 Diffyg Ymglymiad gan Gyflogwr Shaun

8.5.1 Mae'r ffaith fod y cyflogwr wedi gwrthod ymgysylltu â'r broses yn codi goblygiadau ehangach oherwydd bod adolygiadau DHR yn methu â chael mynediad i wybodaeth berthnasol bosib ac felly'n methu gwneud argymhellion perthnasol. Mae angen cefnogaeth ar gyflogwyr i ddeall pa gyfraniad gwerthfawr allant ei wneud i adolygiad DHR drwy fod yn sensitif i'w dealltwriaeth a'i cyndynrwydd i wneud hynny. Mae'n debygol y byddai codi ymwybyddiaeth o fudd.

ARGYMHELLIAD 11

8.5.2 Mae'r Panel yn argymhell y dylai'r Swyddfa Gartref ystyried ymestyn sgôp y DHR i gynnwys gofyn statudol ar brif gyflogwyr y DU i ymgysylltu â'r broses DHR.

GEIRFA

AAFDA	Advocacy after Fatal Domestic Abuse / Eiriolaeth wedi cam-drin domestig angheuol
BIPBC	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

BTP	British Transport Police / Heddlu Trafnidiaeth Prydain
CID 16	Ffurflen Gyfeirio Gwarchod y Cyhoedd
CMHT	Community Mental Health Team / Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol
CP	Community Psychiatrist / Seiciatrydd Cymunedol
CPN	Community Psychiatric Nurse / Nyrs Seiciatrig Cymunedol
CPS	Crown Prosecution Service / Gwasanaeth Erllyn y Goron
CSP	Community Safety Partnership / Y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol
DAO	Domestic Abuse Officer / Swyddog Cam-drin Domestig
DASH	Domestic Abuse, Stalking and Honour Based Violence Risk Identification, Assessment and Management Model / Model Adnabod, Asesu a Rheoli Risg Cam-drin Domestig, Stelcian a Thrais yn seiliedig ar Anrhydedd (2009)
DHR	Domestic Homicide Review / Adolygiad Lladdiad Domestig
FLO	Family Liaison Officer / Swyddog Cyswllt Teulu
Gorwel	Gwasanaethau Cefnogol Trais Domestig
MT	Meddyg Teulu (Doctor)
HAFAL	Sefydliad gwirfoddol yn y gymuned sy'n rhoi cefnogaeth iechyd meddwl
IDVA	Independent Domestic Violence Advisor / Ymgynghorydd Annibynnol Trais Domestig
IMR	Independent Management Review / Adolygiad Rheoli Mewnol
MHA	Mental Health Act / Deddf Iechyd Meddwl
MAPPA	Multi-Agency Public Protection Arrangements / Y Trefniadau Gwarchod y Cyhoedd Amlasiantaethol
NICE	National Institute for Health and Care Excellence / Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal
HGC	Heddlu Gogledd Cymru
Parabl	Partneriaeth Therapiau Siarad
PVPU	Protecting Vulnerable People Unit (Police) / Uned Gwarchod Personau Bregus (Heddlu)
RELATE	Elusen Cefnogi Perthnasau
SPOA	Single Point of Access / Un Pwynt Mynediad
WAST	Welsh Ambulance Services NHS Trust / Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru

Diwedd yr Adroddiad